Adroddiad Ymchwil
Arbrawf Digidol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

12313UZ02 Gorffennaf 2005

Paratowyd ar gyfer

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys 2

Cefndir 4

1 Cyflwyniad 4

2 Methodoleg 5

3 Proffil yr Ymatebwr 6

4 Prif Ganfyddiadau Meintiol 7

5 Adrodd Manwl fesul Cwestiwn 8

5.1 Hyder yn y gallu i osod offer ac ail-sganio ar ôl diffodd teledu analog 8

5.1.1 Lefel yr Hyder yng ngallu'r cartref/ymatebwr i osod yr offer (Ton 1 Tablau 2/3 - C1b/2) 8

5.1.2 Hyder rhagweledig wrth osod set deledu newydd (Ton 1 Tabl 11 - C10) 9

5.1.3 Lefel yr Hyder yng ngallu'r cartref/ymatebwr i ail-sganio'r offer (Ton 2 Tablau 1/2 - C1/2) 9

5.2 A wnaeth y cartref lwyddo heb gymorth allanol? 10

5.2.1 Pwy a osododd y blwch pen-teledu? (Ton 1 Tabl 4 - C3) 10

5.2.2 Pwy a ail-sganiodd yr offer? (Ton 2 Tabl 3 - C3) 10

5.3 Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfarwyddiadau ysgrifenedig? 10

5.3.1 Camau a gymerwyd cyn gosod yr offer (Ton 1 Tabl 5 - C4) 10

5.3.2 Camau a gymerwyd cyn i'r ymatebwr ail-sganio'r offer (Ton 2 Tabl 4 - C4) 11

5.4 Pa gyfran o'r rheiny na wnaethant y gwaith eu hunain a fu'n ystyried gwneud hynny? 11

5.4.1 A wnaeth y rhai na osododd yr offer ystyried ceisio gosod y blwch eu hunain? (Ton 1 Tabl 6 - C5) 11

5.4.2 A wnaeth y rhai na sganiodd ystyried ceisio ail-sganio'r offer eu hunain? (Ton 2 Tabl 6 - C6) 11

5.5 Lefel y cymorth yr oedd ei angen 11

5.5.1 Lefel y cymorth yr oedd ei angen wrth osod blwch (Ton 1 Tabl 7 - C6) 11

5.5.2 Lefel y cymorth yr oedd ei angen wrth ail-sganio offer (Ton 2 Tabl 5 - C5) 12

5.6 Rhwyddineb canfyddedig cwblhau'r gwaith 12

5.6.1 Rhwyddineb canfyddedig gosod yr offer (Ton 1 Tabl 8 - C7) 12

5.6.2 Rhwyddineb canfyddedig ail-sganio (Ton 2 Tabl 7 - C7) 12

5.7 Hyd y dasg 12

5.7.1 Hyd y Gosod (Ton 1 Tabl 9 - C8) 12

5.7.2 Hyd yr ailsganio ar gyfer prif set yn unig (Ton 2 Tablau 8/9 - C8/9) 13

5.8 Yr agwedd fwyaf cymhleth ar osod yr offer (Ton 1 Tabl 10 - C9) 13

5.8.1 Ymateb i gyfarwyddiadau ailsganio gan dîm yr arbrawf (Ton 2 Tablau 10/11 - C10/11) 13

5.9 Swm y byddent wedi bod yn barod i dalu am newid i ddigidol (Ton 1 Tabl 12 - C11) 13

5.10 Defnyddio nodweddion digidol ag agweddau tuag atynt (Ton 1 Tablau 13- 24 - C12/13) 13

5.11 Newidiadau o ran defnyddio nodweddion digidol ac agweddau atynt cyn ac ar ôl diffodd analog (Ton 1 Tablau 13-24 - C12/13 a Thon 2 Tablau 17-28 - C15/16) 15

5.12 Amgyffrediad o ansawdd Llun a Sain ar deledu digidol o'i gymharu ag analog (Ton 1 Tablau 25-27 - C14) 19

5.13 Amgyffrediad o ansawdd Llun a Sain ar deledu digidol ar ôl diffodd analog
(Ton 2 Tablau 13-15 - C13) 19
5.14 Pryd fyddech chi'n dweud yr oedd ansawdd cyffredinol eich derbyniad teledu ar ei orau?
(Ton 2 Tabl 12 - C12) 19
5.15 Tri o fanteision mwyaf gwerthfawr teledu digidol
(Ton 1 Tablau 28 - C15 a Thon 2 Tabl 30 - C18) 19
5.16 A oedd angen i chi gael unrhyw waith wedi'i wneud ar eich erialau neu'ch ceblau?
(Ton 2 Tabl 16 - C14) 20
6 Casgliadau 20
7 Prif Ganfyddiadau Ansoddol 20
8 Y Sampl 22
8.1 Y Sampl (Cyfnod Cyntaf) 22
8.2 Y Sampl (Ail Gyfnod) 23
9 Yr Arbrawf 24
10 Technoleg 25
11 Gosod 25
11.1 Hunanosod 25
11.2 Erialau 25
11.3 Blychau pen-teledu 25
11.4 Recordwyr Fideo Personol (PVRs) 25
11.5 Ffitwyr 25
11.6 Desg Gymorth 26
11.7 Aildiwnio 26
11.8 Tîm Cynorthwyol 26
12 Effaith Gymunedol 27
13 Ymagweddau at Wylio'r Teledu 27
14 Ymagweddau at Ddulliau Digidol 28
15 Recordiwr Fideo Personol 29
16 Meysydd Problem 30
17 Argymhellion 32

Cefndir

Mae'r adroddiad gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o'r ymchwil a wnaed gan Ipsos RSL ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ymhlith y cymunedau sy'n cymryd rhan yn yr Arbrawf technegol newid i ddigidol yng Nglanyfferi a Llansteffan. Roedd cyfnodau yr ymchwil hwn yn cynnwys technegau ymchwil meintiol trwy holiaduron post a chyfweliadau meintiol manwl mewn cartrefi ag unigolion o ardal yr arbrawf yn eu cartrefi.

Amcan cyffredinol yr ymchwil hwn oedd gwerthuso effeithiau dynol newid i ddigidol, gan ystyried yn benodol sut y byddai hyn yn effeithio ar aelodau oedrannus a/neu anabl y gymdeithas.

Pan ddigwydd y newid i ddigidol, dylid darparu'r lefel briodol o gefnogaeth i'r rheiny sydd ei hangen fwyaf. I bennu lefelau cefnogaeth priodol, aeth yr ymchwil hwn ati i arsylwi patrymau ymddygiadol a dadansoddi agweddau pobl tuag at y newid - gan ystyried yn arbennig y rheiny sydd o fewn grwpiau a ddiffiniwyd yn benodol fel 'rhai sy'n agored i niwed'.

Er mwyn deall yn llawn yr ymatebion at newid gorfodol i ddigidol, cynhaliwyd rhaglen ymchwil aml-gyfnod fel a ganlyn:

- (Meintiol) Holiadur i tua 91% o bob un o'r 475 o gartrefi'r Arbrawf eu cwblhau eu hunain (i feincnodi agweddau cyn y newid)
- (Ansoddol) Cyfweliadau manwl yn 8 o gartrefi'r Arbrawf (i ddarparu astudiaethau achos o agweddau tuag at newid ymhlith grŵp 'sy'n agored i niwed', cyn y newid)
- (Meintiol) Holiadur i tua 91% o bob un o'r 475 o gartrefi'r Arbrawf eu cwblhau (i ddeall y datblygiad mewn agweddau ar ôl y newid)
- (Ansoddol) Cyfweliadau manwl gyda 9 o gartrefi'r Arbrawf (i ailymweld ag astudiaethau achos a deall newidiadau o ran agwedd ymhlith y grŵp 'sy'n agored i niwed' ar ôl y newid)

Tra oedd diben y cyfnodau meintiol yn ymwneud â meincnodi a mesur newidiadau o ran agweddau ar raddfa fwy cyn ac ar ôl gosod offer digidol, bwriad y cyfnodau ansoddol oedd darparu dadansoddiad manwl ar lefel fwy personol.

Gellir trin cyfnodau gwahanol yr ymchwil ar wahân os dymunir, oherwydd roeddent yn edrych ar yr un amcan cyffredinol ond o wahanol safbwyntiau, ond roedd prif amcan yr ymchwil hwn yn aros yn gyson ar gyfer pob cyfnod o'r ymchwil, ac roedd pob cyfnod yn cyd-fynd â'i gilydd.

#

1. Cyflwyniad

Mae adrannau canlynol yr adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau dau arolwg post a gynhaliwyd gan Ipsos-RSL ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, lle'r oedd yr atebwyr yn drigolion yng Nglanyfferi a Llansteffan, sef pentrefi yng Ngorllewin Cymru lle'r oedd yr Arbrawf technegol newid i ddigidol yn cael ei gynnal. Rhoddwyd cyngor i gartrefi'r Arbrawf o ran pa offer fyddai ei angen arnynt i newid i deledu digidol. Roedd angen blychau pen-teledu penodol ar rai cartrefi ar gyfer cysylltedd neu gryfder signal. Roedd angen cyngor ar eraill ar sut i osod yr offer gyda setiau teledu hen iawn (dim llawlyfr defnyddiwr) neu gyda offer cymhleth iawn.

Gallai cartrefi'r Arbrawf naill ai:

- ddewis o ddetholiad o 5 blwch pen-teledu, a 2 recordiwr fideo personol a brofwyd eu bod yn 'addas at y diben' (e.e. MHEG, dim meddalwedd perchenogol) ac yr oedd cymhorthdal llawn ar eu cyfer,

- Roedd cymhorthdal llawn ar gyfer blwch pen-teledu Netgem (yr unig flwch pen-teledu daearol ar y farchnad sydd â sain-ddisgrifiad) ar gael i unigolion oedd â nam ar eu golwg.

- Defnyddiwyd recordwyr fideo personol oedd â dau diwnydd i drawsnewid 'clystyrau' teledu/recordiwr fideo gan alluogi'r defnyddiwr i recordio un rhaglen tra'n gwylio rhaglen arall.

neu:

- brynu unrhyw offer digidol o'u dewis gan unrhyw adwerthwr a hawlio cymhorthdal o'r Arbrawf i'r gost a oedd gyfwerth â darparu offer yr Arbrawf a ddisgrifir uchod,

neu:

- gael gwasanaethau lloeren digidol a chymhwyso ar gyfer y cymhorthdal cyfwerth (unigol).

Ar 29 Tachwedd 2004, dechreuwyd y trosglwyddiadau digidol o drosglwyddydd Glanyfferi, ac ar 30 Mawrth 2005, diffoddwyd y trosglwyddiadau analog.

Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf ym mis Rhagfyr 2004/Ionawr 2005, yn fuan ar ôl cwblhau gosod yr offer digidol, a chynhaliwyd yr ail gyfnod yn ystod hanner olaf mis Ebrill 2005, bythefnos yn unig ar ôl diffodd y signal analog.

Roedd yr arolygon wedi'u cynllunio i ddarparu dadansoddiad meintiol o ymateb cynulleidfa'r arbrawf i'r newid i deledu digidol. Roedd yn ddiddorol iawn gweld lefel y gefnogaeth yr oedd ei hangen ar grwpiau oedd yn agored i niwed wrth iddynt osod a defnyddio offer teledu digidol. At ddibenion dadansoddi'r arolygon hyn, diffiniwyd pobl "agored i niwed" fel pobl sy'n 75 oed neu'n hŷn a/neu bobl ag anabledd.

Yn benodol, roedd gan yr ymchwil yr amcanion allweddol canlynol:

- Meintoli lefel yr anhawster disgwyliedig a gwirioneddol gyda gosod ac ailsganio offer
- Nodi swm y wybodaeth a'r cymorth a oedd eu hangen ar gyfer gosod ac ailsganio
- Cael amcan o agweddau tuag at newid i ddigidol
- Monitro'r problemau a geir wrth weithredu offer newydd
- Mesur y defnydd a wneir o nodweddion amrywiol teledu digidol yn y ddau gyfnod yn yr arbrawf a'r agwedd tuag atynt
- Ennyn barn am ansawdd llun a sain cyn ac ar ôl diffodd y teledu analog
- Cymharu canlyniadau ymhlith y grŵp arbrawf cyffredinol â chanlyniadau unigolion sy'n agored i niwed.

2 Methodoleg

Dull Holiaduron post i bobl eu cwblhau eu hunain

Sail yr Arolwg Cartrefi yn Llansteffan a Glanyfferi a oedd yn cymryd rhan yn yr arbrawf technegol newid i ddigidol.

Yr ymatebwr y cyfeiriwyd yr holiadur ato ym mhob achos oedd yr aelod o'r cartref a oedd wedi cael y mwyafrif o'r ohebiaeth yn gynharach yn ystod yr arbrawf, fel arfer pennaeth y cartref neu bartner pennaeth y cartref. Nid yw hwn felly'n arolwg sy'n cynrychioli'n gyfartal pob unigolyn sy'n byw yng nghartrefi'r arbrawf. (Gweler proffil yr ymatebwr).

Cyfnod y Gwaith maes	Ton 1 Gwaith maes - 16 Rhagfyr 2004 - 21 Ionawr 2005 Ton 2 Gwaith maes – 16 Ebrill 2005 – 27 Ebrill 2005
Cyfraddau Ymateb	Ton 1 – anfonwyd 423 o holiaduron a dychwelwyd 218 ohonynt (roedd gan 214 o'r rhain offer digidol wedi'i osod eisoes), sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 51.5% Ton 2 – anfonwyd 473 o holiaduron a dychwelwyd 195 ohonynt, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 41%.
Dadansoddi a Phwysoli	Proseswyd y data o holiaduron post gan Ipsos-RSL Ltd. Ni wnaed unrhyw bwysoli ar yr arolwg hwn

3 Proffil yr Ymatebwr

Gan na chafodd data'r arolwg ei bwysoli ar y naill don na'r llall, mae'n bwysig cadw mewn cof bod yr arolygon yn cynrychioli'r cartrefi hynny a ddychwelodd yr holiaduron yn unig, a lle cymerir y data ar gyfer y ddwy don, efallai bod gwahaniaethau bach ym mhroffil y ddwy don yn gyfrifol am rai o'r gwahaniaethau rhwng y data ar gyfer Ton 1 a'r data ar gyfer Ton 2. Yn benodol, mae Ton 1 yn gwyro mwy tuag at atebwyr sy'n ddynion a thuag at y grŵp sy'n agored i niwed**. Dylid ystyried hefyd nad yw hwn yn arolwg sy'n cynrychioli pob unigolyn yng nghartrefi'r arbrawf yn gyfartal, ond bod yr ymatebwr yn y rhan fwyaf o achosion naill ai'n bennaeth y cartref neu'n bartner i bennaeth y cartref.

	Ton 1	Ton 2
	N=218	N=195
Gwryw	65%	58%
Benyw	33%	40%
Dim ateb	2%	2%
18-34	5%	6%
35-54	28%	26%
55-64	29%	27%
65-69	6%	10%
70-74	9%	10%
75+	21%	19%
Byddar/trwm eu clyw	18%	16%
Gweld yn rhannol/dall	2%	4%
Yn anabl yn gorfforol	5%	4%
Yn anabl mewn ffordd arall	2%	0%

Unrhyw anabledd	23%	21%
Agored i niwed**	33%	29%
Cartref un person	33%	34%
Cartref 2 berson neu fwy	67%	66%

*Mae ** "agored i niwed" wedi'i ddiffinio drwyddi draw fel pobl 75 oed ac yn hŷn a/neu bobl ag anabledd*

4 Prif Ganfyddiadau Meintiol

- Llwyddodd 63% o gartrefi i osod yr offer yn wreiddiol heb gymorth o'r tu allan i'r cartref, a gofynnodd 19% yn unig am gymorth tîm yr arbrawf. Cafodd 14% gymorth gan ffrind neu aelod o'r teulu y tu allan i'r cartref a chafodd 4% naill ai gymorth arall neu nid oeddent yn siwr.

- Roedd 71% yn teimlo y byddent yn gallu mynd i'r afael â'r dasg yn y dyfodol, o bosibl oherwydd eu profiadau cadarnhaol diweddar o'r arbrawf.

- Ail-sganiodd 66% o gartrefi'r offer ar eu pen eu hunain, ac roedd angen i 27% alw tîm yr arbrawf i mewn. Cafodd 7% ffrind neu aelod o'r teulu o'r tu allan i'r cartref i ailsganio'r offer ac roedd 4% yn ansicr. (SYLWER: Roedd hwn yn gwestiwn 'amlran', felly gallai'r un ymatebwr fod wedi rhoi mwy nag un ateb. Bydd y canlyniadau'n gwneud cyfanswm o fwy na 100%)

- Ar gyfer gosod, roedd angen cymorth tîm yr arbrawf ar 35% o'r rheiny oedd yn 65 oed, 40% o'r anabl, a 37% o'r rhai a oedd yn agored i niwed.

- Ni wnaeth 43% o'r grŵp o bobl a oedd yn agored i niwed hyd yn oed ystyried ceisio gosod yr offer eu hunain.

- Galwodd 52% o'r bobl a oedd yn agored i niwed dîm yr arbrawf i ailsganio'u hoffer.

- Cynyddodd hyder y rhai a oedd yn agored i niwed i ymgymryd â'r tasgau technegol eu hunain ychydig trwy gydol yr arbrawf.

- Roedd 90% o'r rheiny a osododd yr offer eu hunain yn ei ystyried yn hawdd, ond roedd y rheiny nad oedd wedi gosod yr offer eu hunain dim ond hanner mor debygol o'i ystyried yn yr un modd.

- Byddai hanner yr atebwyr wedi bod yn barod i dalu am newid i ddigidol ar Don 1 (cyfartaledd o £30 ymhlith y rheiny a oedd yn barod i dalu), gydag atebwyr a oedd yn 55 oed ac yn hŷn yn fwy parod nag eraill.

- Cynyddodd y defnydd o'r botwm coch, y Canllaw Rhaglen Electronig (EPG) a'r rheolydd o bell yn ystod yr arbrawf, yn yr un modd ag y gwnaeth yr amgyffrediad o ba mor hawdd oeddent i'w defnyddio. Daeth yr EPG a'r rheolydd o bell yn arbennig yn fwy angenrheidiol wrth i'r arbrawf fynd yn ei flaen.

- Ymhlith y rhai a oedd yn agored i niwed, cynyddodd yr EPG o ddifrif o ran poblogrwydd wrth i'r arbrawf fynd yn ei flaen, gan gyrraedd bron yr un lefel o ddefnydd ag ymhlith y sampl gyfan.

- Barnwyd bod ansawdd llun y gwasanaethau digidol yn well na'r gwasanaethau analog gan 82% ac yn llawer gwell gan 64% o'r sampl gyfan.

- Pan ddiffoddwyd analog, roedd 71% yn teimlo bod ansawdd y llun yn well eto, a 47% yn teimlo'i fod yn llawer gwell.

- Barnwyd bod ansawdd y sain wedi gwella yn y ddau gyfnod ond i raddau llai.

- Roedd 62% o'r atebwyr o'r farn bod eu derbyniad teledu ar ei orau ar ôl diffodd analog.

- Cynyddodd ansawdd y llun o ran pwysigrwydd fel un o fanteision canfyddedig teledu digidol ar ôl diffodd analog, ond ystyriwyd mai'r sianelau newydd a oedd ar gael oedd y fantais bwysicaf cyn ac ar ôl y diffodd.

- Adroddodd ymatebwyr sy'n agored i niwed mai ansawdd y llun oedd y fantais fwyaf (uwchlaw sianelau newydd) ar ôl diffodd analog.

5 Adrodd Manwl fesul Cwestiwn

5.1 Hyder yn y gallu i osod offer ac ailsganio ar ôl diffodd teledu analog

Mae yna dri maes o gwestiynau lle cawn gyfle i asesu'r modd y bu i hyder yr ymatebwr a'r cartref unigol ddatblygu yn ystod yr arbrawf.

5.1.1 Lefel yr Hyder yng ngallu'r cartref / ymatebwr i osod yr offer (Ton 1 Tablau 2/3 – C1b/2)

O blith y 218 o atebwyr i holiadur Ton 1, nid oedd 4 cartref eto wedi cael eu hoffer digidol wedi'i osod, gan adael sylfaen o 214 o gartrefi lle'r oedd yr offer yn ei le.

Ymhlith y sampl gyfan, roedd hyder yng ngallu o leiaf un aelod o'r cartref i osod yr offer yn uchel, sef 63%, gyda thros 1 ym mhob 5 yn teimlo'n hyderus iawn bod y cartref yn gallu mynd i'r afael â'r dasg. Mynegodd atebwyr a oedd yn ddynion fwy o hyder na merched (69% yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus yn erbyn 48% o ferched). Roedd yna wahaniaethau amlwg yn ôl oedran, gyda 31% o'r rheiny rhwng 18-54 oed yn teimlo'n hyderus iawn, 22% o'r rheiny rhwng 55-64 oed, 13% o'r rheiny rhwng 65-74 oed a 9% o'r grŵp oedd yn 75 oed neu'n hŷn. Yn unol â'r dirywiad hwn gydag oedran yn y lefel uchaf o ran hyder, mae'r rheiny sy'n mynegi'r lefel isaf o hyder yn codi o 4% ymhlith y bobl rhwng 18-54 oed, i 13% o bobl 55-64 oed, i 34% o bobl 65-74 oed, a hyd at 51% o'r rheiny a oedd yn 75 oed ac yn hŷn.

Mae'r ymatebwyr dros 75 oed hefyd yn cynnwys mwyafrif y grŵp "sy'n agored i niwed", gyda 25 yn unig o ymatebwyr o'r 71 o bobl sy'n agored i niwed yn anabl mewn rhyw ffordd, ond nad ydynt yn 75 oed ac yn hŷn. Nid yw'n syndod, felly, y dylai 47% o'r grŵp sy'n agored i niwed deimlo "nad oes ganddynt unrhyw hyder" ynghylch a fyddai rhywun yn eu cartref yn gallu gosod y blwch (yn erbyn 9% o'r rheiny nad oeddent yn cael eu hystyried yn agored i niwed). Ymhlith y rheiny sydd ag anabledd, roedd y ffigur cyfwerth ychydig yn uwch, sef 52% (o'i gymharu â 12% yn unig ar gyfer y rheiny nad oes ganddynt anabledd). Dylid nodi mai cyfran ychydig yn uwch o'r bobl anabl oedd yr unig aelod yn eu cartref (42%) o gymharu â'r hyn a oedd yn wir ar gyfer y gweddill, a allai helpu esbonio pam y mae ganddynt lai o hyder. Roedd y rheiny mewn cartref

lle'r oedd un person mor debygol ag eraill o fod yn "hyderus iawn", ond roeddent yn llai hyderus ar y cyfan. O ran hyder personol yn eu gallu eu hunain i osod yr offer, roedd chwarter yn hyderus iawn y gallent wneud y gwaith eu hunain, ac roedd ychydig dros ddwy ran o dair yn hyderus i unrhyw raddau; eto, roedd y lefel uchaf o ran hyder i'w gweld yn bennaf ymhlith y dynion, y bobl ieuengaf a'r bobl abl eu corff.

5.1.2 Hyder rhagweledig wrth osod set deledu newydd (Ton 1 Tabl 11 – C10)

Gyda phrofiad gosod y tu ôl iddynt, gofynnwyd i ymatebwyr pa mor hyderus oeddent yn teimlo y byddent yn gallu gosod unrhyw offer digidol ar unrhyw setiau newydd yn y dyfodol heb gymorth allanol. Ymhlith pob un o'r ymatebwyr, roedd lefel yr hyder o ran gallu gosod blwch pen-teledu heb gymorth allanol wedi codi o 63% (pan ofynnwyd sut roeddent yn teimlo am allu eu cartref i osod y blwch y tro cyntaf) i 71% pan ofynnwyd iddynt am osod unrhyw setiau yn y dyfodol, gyda mwy na dwywaith y nifer nawr yn honni eu bod "yn hyderus iawn"(43% o 21% yn flaenorol).

O blith y rheiny a gwblhaodd y broses o osod cychwynnol eu hunain, roedd 68% yn dweud eu bod yn "hyderus iawn" eu bod yn gallu gwneud yr un gwaith eto yn y dyfodol, ac roedd 28% arall yn "weddol hyderus" eu bod yn gallu gwneud hynny, gan adael 4% yn unig fel rhai nad oeddent yn hyderus. Ymhlith y rheiny na osododd yr offer eu hunain, 42% yn unig oedd yn teimlo'n hyderus. Fodd bynnag, roedd 30% o'r rheiny a oedd wedi galw tîm yr arbrawf i mewn yn teimlo'n hyderus y byddent yn gallu gosod yr offer eu hunain y tro nesaf. Y rheiny a oedd yn fwyaf tebygol o beidio â bod yn hyderus oedd merched a'r grwpiau a oedd yn agored i niwed.

5.1.3 Lefel yr Hyder yng ngallu'r cartref / ymatebwr i ailsganio'r offer (Ton 2 Tablau 1/2 – C1/2)

Er na ellir cymharu'r dasg yn uniongyrchol, mae'n ddiddorol sylwi bod lefel yr hyder yr oedd ymatebwyr yn ei deimlo wrth ailsganio heb gymorth allanol, yn debyg iawn i'r hyn a nodwyd uchod yn ymwneud â'r hyder rhagweladwy ar gyfer gosod blychau pen-teledu yn y dyfodol, ac felly'n uwch na'u hyder cychwynnol ynglŷn â mynd i'r afael â'r cyfnod gosod cyntaf. Er bod 40% yn teimlo'n hyderus iawn y byddai o leiaf un person yn eu cartref yn gallu cwblhau'r ailsganio, roedd 72% yn hyderus i unrhyw raddau. Fel o'r blaen, roedd hyder yn dirywio gydag oedran, gyda 46% o'r rheiny a oedd yn 75 oed ac yn hŷn yn honni nad oeddent yn hyderus o gwbl y byddai o leiaf un person yn eu cartref yn gallu gwneud y gwaith. O'r rheiny a oedd yn hyderus iawn, aeth 83% ymlaen i gwblhau'r gwaith yn bersonol, a dim ond 5% oedd angen cynnwys tîm yr arbrawf, gydag ymatebwyr eraill hefyd yn crybwyll y cawsant gymorth gan aelod arall yn eu cartref a/neu ffrindiau neu deulu o'r tu allan i'w cartref (gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn 'Pwy ail-sganiodd offer digidol yn eich cartref mewn gwirionedd?', felly nid yw'r canlyniadau'n gwneud cyfanswm o 100%). O blith y rheiny a oedd yn weddol hyderus, gwnaeth 65% yr ailsganio eu hunain mewn gwirionedd, a galwodd 24% ar dîm yr arbrawf. O blith y 41 o ymatebwyr nad oeddent yn hyderus o gwbl, llwyddodd 15% i allu gwneud y gwaith eu hunain, ond roedd angen cymorth tîm yr arbrawf ar ddwy ran o dair (gofal - sampl fach). Ymatebwyr a oedd yn agored i niwed, a'r rheiny a oedd yn 75 oed ac yn hŷn yn benodol, oedd y rhai lleiaf tebygol o deimlo'n hyderus y byddai eu cartref yn gallu ailsganio'r offer (8% yn hyderus iawn, 32% yn hyderus i unrhyw raddau a 46% ddim yn hyderus o gwbl). Mae'r lefel "ddim yn hyderus o gwbl" ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed yn gostwng ychydig mewn gwirionedd ym mhob un o'r tri chyfnod a amlinellir uchod, o 47% "ddim yn hyderus o gwbl" o'r cychwyn, i 41% y disgwylir na fyddant yn hyderus o gwbl i osod offer yn y dyfodol i 36% ddim yn hyderus o gwbl ynglŷn â'r ailsganio.

5.2 A wnaeth y cartref lwyddo heb gymorth allanol ?

5.2.1 Pwy a osododd y blwch pen-teledu ? (Ton 1 Tabl 4 – C3)

Aeth dros hanner yr ymatebwyr (53%) ymlaen i osod y blwch pen-teledu eu hunain, gyda 69% o'r dynion a 22% o'r merched yn gwneud hyn. Aeth bron i dri chwarter o'r ymatebwyr rhwng 18-54 oed ati i osod yr offer eu hunain, gan ostwng i 59% o'r rheiny rhwng 55-64 oed, 41% o'r rheiny rhwng 65-74 oed a 22% o'r rheiny a oedd yn 75 oed ac yn hŷn. Yn bwysicach na hynny, efallai, o ran gallu'r cartref i ymdopi heb gymorth, llwyddodd 63% o'r cartrefi i osod yr offer heb droi at unrhyw gymorth o'r tu allan i'r cartref, sy'n cyfateb yn union i'r gyfran a oedd yn teimlo'n hyderus i ryw raddau y gallai eu cartref fynd i'r afael â'r dasg. Yn anochel, roedd yna rai ymhlith y bobl hyderus (15%) na lwyddodd i wneud y gwaith yn eu cartref eu hunain yn y diwedd, ond yn yr un modd roedd yna rai o blith y bobl nad oeddent yn hyderus (28%) a lwyddodd i osod yr offer eu hunain heb gymorth o'r tu allan i'r cartref. Llwyddodd ychydig dros dri chwarter o'r cyfanswm naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda chymorth o gylch ehangach o ffrindiau a theulu, a dim ond 19% a oedd angen gwasanaethau tîm yr arbrawf.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn ddynion yn fwy tebygol o osod y blwch na merched: dim ond 39% o'r ymatebwyr a oedd yn ferched a oedd yn honni iddynt fynd i'r afael â'r dasg yn eu cartref eu hunain, o'i gymharu â 75% o ddynion, am fod cyfran llawer uwch o ymatebwyr a oedd yn ferched mewn cartrefi un person na dynion (46% o ferched yn erbyn 26% o ddynion). Mae hyn yn amlygu'r ffaith eto mai dynion oedd yr ymatebwr yn y cartref am y rhan fwyaf o'r cyswllt yn ystod yr arbrawf a'i bod yn fwy tebygol mai merched oedd yr ymatebwr naill ai pan nad oedd dyn yn y cartref neu pan nad y dyn yn y cartref oedd y person mwyaf addas i gysylltu â thîm yr arbrawf.

Roedd y rheiny yr oedd angen cymorth tîm yr arbrawf arnynt yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr 65 oed ac yn hŷn, ac roedd 35% ohonynt wedi defnyddio gwasanaethau tîm yr arbrawf ar gyfer gosod yr offer. Roedd angen cymorth tîm yr arbrawf ar bedwar o bob deg o'r rheiny ag anabledd, o'i gymharu â 21% yn unig o'r rhai eraill, a chododd hyn i 37% o blith y rheiny a ddosbarthwyd fel y rhai sy'n agored i niwed. Roedd y rheiny mewn cartrefi un person i raddau helaeth yr un mor debygol ag eraill i gynnwys tîm yr arbrawf, ond roeddent yn fwy tebygol nag eraill o gael cymorth cylch ehangach o deulu a ffrindiau.

5.2.2 Pwy a ail-sganiodd yr offer ? (Ton 2 Tabl 3 - C3)

Er i 59% o ymatebwyr ailsganio'r offer eu hunain, mewn nifer fach o achosion, roedd hyn gyda chymorth aelod arall o'r cartref ac mewn tri achos, gyda chymorth gan dîm yr arbrawf. Mewn 7% o achosion, gofynnwyd i ffrind neu aelod teulu o'r tu allan i'r cartref ac mewn 27% o achosion tîm yr arbrawf, sy'n golygu mai dim ond 34% o'r cartrefi nad oedd yn gallu ymdopi ar eu pen eu hunain, sef cyfran debyg iawn i'r hyn a welwyd yn achos gosod yr offer yn wreiddiol. Ailsganiodd ymatebwyr a oedd yn agored i niwed yr offer eu hunain a galw ar dîm yr arbrawf mewn 30% a 52% o achosion yn y drefn honno.

5.3 Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfarwyddiadau ysgrifenedig?

5.3.1 Camau a gymerwyd cyn gosod yr offer (Ton 1 Tabl 5 – C4)

O'r sampl gyfan, darllenodd 72% y taflenni cymorth, a ddarparwyd gan Dîm yr Arbrawf ei hun cyn gosod yr offer, gyda 30% yn gofyn am gyngor neu gymorth gan deulu a ffrindiau a 17% yn mynd ymhellach am gymorth, tra oedd 7% yn honni nad oedd angen unrhyw un o'r mathau hyn o gyfarwyddyd arnynt.

Ymatebwyr oedd yn ddynion oedd y rhai mwyaf tebygol o ddarllen y taflenni cymorth a'r lleiaf tebygol o ofyn i eraill am gyngor, gyda'r rheiny hyd at 64 oed yn debygol iawn o ddarllen y cyfarwyddiadau, tebygolrwydd a ostyngodd o 65 oed ac yn hŷn.

Roedd y grwpiau anabl yn llai tebygol o ddarllen y cyfarwyddiadau nag eraill (58% yn erbyn 76%), ond yn fwy tebygol o ofyn am fathau eraill o gymorth, gyda phatrwm tebyg iawn ar gyfer y bobl sy'n agored i niwed.

O blith y rheiny a osododd y blwch eu hunain, roedd 88% wedi darllen y cyfarwyddiadau'n gyntaf, o'i gymharu â 54% yn unig o'r rheiny na wnaethant y gwaith eu hunain. O blith y rheiny a alwodd tîm yr arbrawf i mewn, roedd 63% wedi darllen y cyfarwyddiadau'n gyntaf.

5.3.2 Camau a gymerwyd cyn i'r ymatebwr ailsganio'r offer (Ton 2 Tabl 4 – C4)

Gallwn ond cymharu ymddygiad y rheiny a wnaeth y gwaith eu hunain, gan mai yn Nhon 2, dim ond i'r rheiny a oedd wedi ailsganio'r offer eu hunain y gofynnwyd beth roeddent wedi'i wneud ymlaen llaw. Roedd mwyafrif y rheiny a oedd wedi ailsganio'r offer eu hunain wedi darllen y cyfarwyddiadau ysgrifenedig (83%), ond dim ond 26% oedd wedi darllen cyfarwyddiadau ysgrifenedig y gwneuthurwr a 23% oedd wedi mynychu clinig tîm yr arbrawf.

5.4 Pa gyfran o'r rheiny na wnaethant y gwaith eu hunain fu'n ystyried gwneud hynny ?

5.4.1 A wnaeth y rhai na osododd yr offer ystyried ceisio gosod y blwch eu hunain ? (Ton 1 Tabl 6 – C5)

O blith y rheiny nad aethant i'r afael â'r gwaith eu hunain, ni wnaeth 40% hyd yn oed ystyried gwneud hynny o gwbl, bu 21% yn ei ystyried ond nid oedd ganddynt yr hyder, a dechreuodd 18% ar y gwaith, ond rhoi'r gorau iddi. O'r grŵp a alwodd tîm yr arbrawf i mewn, roedd 28% wedi dechrau ar y gwaith ond wedi rhoi'r gorau iddi.

Merched oedd y lleiaf tebygol o hyd yn oed ystyried gosod yr offer eu hunain, roedd yr awydd i wneud hyn hefyd yn mynd yn llai gydag oedran, gyda 53% o'r rheiny a oedd yn 75 oed ac yn hŷn ddim hyd yn oed yn ystyried bod y dasg o fewn eu gallu. Yn yr un modd, ni wnaeth 46% o'r bobl anabl a 43% o'r bobl a oedd yn agored i niwed ystyried gwneud y gwaith eu hunain.

5.4.2 A wnaeth y rhai na sganiodd ystyried ceisio ailsganio'r offer eu hunain? (Ton 2 Tabl 6 – C6)

O blith y rheiny na ail-sganiodd yr offer eu hunain, ni wnaeth 36% hyd yn oed ystyried ceisio gwneud hynny, gan godi i 57% o'r rheiny 75 oed ac yn hŷn (gofal sampl fach). Mae'r lefelau'n debyg iawn i'r rheiny a welwyd yn achos y gosod offer gwreiddiol.

5.5 Lefel y cymorth yr oedd ei angen

5.5.1 Lefel y cymorth yr oedd ei angen wrth osod blwch (Ton 1 Tabl 7 – C6)

Fel a nodwyd uchod, gosododd 53% o'r ymatebwyr y blwch eu hunain, ac o blith y rhain, roedd bron i ddwy ran o dair yn honni nad oedd angen unrhyw gymorth arnynt o gwbl wrth wneud hyn, gyda phawb ond un o'r gweddill yn honni bod angen "rhywfaint" o gymorth yn hytrach na "chryn dipyn" o gymorth. O gyfanswm yr ymatebwyr, roedd 37% yn eu dosbarthu eu hunain fel rhai nad oedd angen unrhyw gymorth arnynt, roedd angen rhywfaint o gymorth ar 29% ac roedd angen cryn dipyn o gymorth ar 32%.

5.5.2 Lefel y cymorth yr oedd ei angen wrth ailsganio'r offer (Ton 2 Tabl 5 – C5)

Eto, mae'n bwysig nodi yma na ellir cymharu'r data hwn yn uniongyrchol â'r cwestiwn cyfatebol o Don 1 gan mai dim ond y rheiny a ailsganiodd yr offer eu hunain mewn gwirionedd y gofynnwyd iddynt yn Nhon 2 faint o gymorth yr oedd ei angen arnynt i wneud hynny.

O blith y rheiny a ailsganiodd yr offer eu hunain, roedd 79% yn honni nad oedd angen unrhyw gymorth arnynt o gwbl, mwy na'r dwy ran o dair o'r bobl oedd wedi gosod yr offer eu hunain a oedd yn honni hyn yn Nhon 1. O'r un grŵp hwn, roedd 17% yn honni bod angen rhywfaint o gymorth (ac roedd 3 o'r rhain wedi galw tîm yr arbrawf i mewn) a dim ond 2% oedd angen cryn dipyn o gymorth. Roedd y diffiniadau hyn yn amlwg yn agored i'w dehongli. O'r sylfaen fach o 17 o bobl a oedd yn agored i niwed a ailsganiodd yr offer eu hunain, gwnaeth 14 hynny heb unrhyw gymorth o gwbl.

5.6 Rhwyddineb canfyddedig cwblhau'r gwaith

5.6.1 Rhwyddineb canfyddedig gosod yr offer (Ton 1 Tabl 8 – C7)

Er bod 72% o ymatebwyr ar y cyfan yn amgyffred bod y broses o osod yr offer yn "hawdd" (23% yn hawdd iawn a 49% yn weddol hawdd), mae hyn yn codi i 90% o'r rheiny a wnaeth y gwaith eu hunain, gyda 35% yn ei ddisgrifio yn "hawdd iawn", neb yn ei ddisgrifio'n "anodd iawn" a dim ond 7% yn ei ddisgrifio'n "weddol anodd". Ymddengys bod yr ymatebwyr hynny yr oedd aelod arall o'u cartref wedi gosod yr offer, wedi gweld y dasg mewn ffordd debyg (gofal - sampl fach), ond roedd y rheiny a alwodd am gymorth o'r tu allan i'r cartref tua hanner yr un mor debygol o weld y broses o osod yr offer yn hawdd. Gallai hyn adlewyrchu anghyfleustra gorfod galw cymorth allanol i mewn yn hytrach na'r broses o osod yr offer ei hun.

5.6.2 Rhwyddineb canfyddedig ailsganio (Ton 2 Tabl 7 – C7)

Er bod tua hanner cyfanswm yr ymatebwyr yn amgyffred bod yr ailsganio yn "hawdd iawn", roedd hyn yn amrywio o ddwy ran o dair a oedd wedi ailsganio heb gymorth o'r tu allan i'r cartref, i chwarter y rheiny a oedd wedi galw tîm yr arbrawf i mewn! Dim ond 19% o'r rheiny 75 oed ac yn hŷn oedd yn gweld bod yr ailsganio yn hawdd iawn. Byddai'n ymddangos, yn yr un modd â gyda gosod yr offer yn wreiddiol, bod y rheiny y bu'n rhaid iddynt alw am gymorth o'r tu allan, yn awtomatig yn ystyried bod yr ailsganio yn fwy o boendod, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu barn ynghylch pa mor anodd ydoedd.

5.7 Hyd y dasg

5.7.1 Hyd y Gosod (Ton 1 Tabl 9 – C8)

Roedd y cwestiwn yn cyfeirio at hyd y dasg ar gyfer yr holl offer yn y cartref. Ar gyfartaledd, roedd yn cymryd tua 48 munud i osod yr offer (lle'r oedd y gwerthoedd a ddewiswyd i gyfrif y canolrif yn bwyntiau canol yn yr amrediadau a ddangosir ar yr holiadur). Roedd hyn yn amrywio dim ond ychydig o 44 munud i'r rheiny a oedd wedi gwneud y gwaith eu hunain i 52 munud i eraill (a 60 munud lle'r oedd tîm yr arbrawf wedi gosod yr offer: gallai'r cyfnod hirach hwn fod oherwydd yr amser a gymerwyd i esbonio'r swyddogaethau i ddeiliad y cartref).

Lle'r oedd yna un aelod yn y cartref yn unig, roedd yr amser gryn dipyn yn llai (38 munud yn erbyn 53 munud ar gyfer cartrefi mwy). Tybiwn fod hyn yn cyfateb i'r nifer gyffredinol fwy o setiau teledu mewn cartrefi mwy, neu gallai fod yn gysylltiedig â'r nifer mwy o ymyriadau mewn cartrefi mwy.

5.7.2 Hyd yr ailsganio ar gyfer prif set yn unig (Ton 2 Tablau 8/9 – C8/9)

Fel a ganfuwyd yn achos gosod yr offer, roedd y ffigur cyffredinol o 84% a ddywedodd fod yr ailsganio wedi cymryd llai na 30 munud yn amrywio rhwng y rheiny a wnaeth y gwaith eu hunain a'r rheiny na wnaethant y gwaith eu hunain (93% yn erbyn 67% o'r rheiny a alwodd tîm yr arbrawf i mewn).

Ar gyfartaledd, roedd angen ailsganio 2.5 darn o offer fesul cartref, gyda llai o eitemau mewn cartrefi pobl hŷn a lle'r oedd un aelod yn y cartref yn unig. Gallai hyn esbonio pam nad oedd yna gyfatebiaeth amlwg rhwng nifer y setiau a'r tebygolrwydd o alw cymorth allanol i mewn.

5.8 Yr agwedd fwyaf cymhleth ar Osod (Ton 1 Tabl 10 – C9)

Roedd dros chwarter y bobl a oedd wedi gosod yr offer eu hunain yn teimlo nad oedd yna unrhyw agwedd gymhleth yn gysylltiedig â'r gosod (27% yn erbyn 8% o rai eraill). Yn unol â'r patrymau y sylwyd arnynt yn gynharach, roedd yr ymatebwyr a oedd yn ddynion fwy na dwywaith mor debygol â merched o honni nad oedd unrhyw gymhlethdod (23% yn erbyn 10%), gyda phobl iau yn adrodd yn yr un modd. Ar wahân i'r grŵp hwn, roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu fwy neu lai yn gyfartal ar draws y dewisiadau eraill a awgrymwyd; deall y cyfarwyddiadau (13%), adnabod y ceblau a'r socedi cywir (18%), tiwnio'r blwch i'r teledu (21%) a gweithredu'r rheolydd o bell (15%). Roedd y rheolydd o bell yn broblem yn enwedig i'r bobl oedrannus iawn a'r bobl anabl a oedd yn aelodau'r grŵp a oedd yn agored i niwed.

5.8.1 Ymateb i gyfarwyddiadau ailsganio gan dîm yr arbrawf (Ton 2 Tablau 10/11 – C10/11)

Roedd deall y taflenni cymorth ailsganio yn cael ei weld yn gymhlethdod gan 34% o'r ymatebwyr, gan godi i bron dwy ran o dair o'r rheiny a oedd yn 75 oed neu'n hŷn. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt yn benodol eu hystyried yn ôl pa mor hawdd oeddent i'w defnyddio, dim ond 18% oedd yn eu hystyried yn anodd i'w dilyn (gan godi i 60% gan y bobl a oedd yn 75 oed ac yn hŷn), gyda bron i dri chwarter o'r sampl gyfan yn gweld nad oeddent yn peri problem.

5.9 Swm y byddent wedi bod yn barod i dalu am newid i ddigidol (Ton 1 Tabl 12 – C11)

Gofynnwyd i ymatebwyr Ton 1 faint y byddent wedi bod yn barod i'w dalu am gymorth gyda gosod teledu digidol (heb gynnwys costau'r offer). Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rheiny a fyddai wedi bod yn barod i dalu yn erbyn y rheiny na fyddent yn barod i dalu am newid i ddigidol, gyda chyfartaledd o £15 ar sail pob ymatebwr neu £30 ymhlith y rheiny a oedd yn barod i dalu. Efallai nad yw'n syndod bod y rhai a oedd wedi llwyddo i osod yr offer eu hunain yn llai tebygol o fod yn barod i dalu (ni fyddai 50% yn talu unrhyw beth) na'r rheiny yr oedd angen tîm yr arbrawf arnynt (ni fyddai 38% yn talu unrhyw beth).

5.10 Defnyddio nodweddion digidol ac agweddau tuag atynt (Ton 1 Tablau 13- 24 – C12/13)

Gofynnwyd cwestiynau am ddefnyddio nodweddion digidol ac agweddau tuag atynt yn y ddwy Don o'r ymchwil er mwyn deall sut y byddai hyn yn newid dros gyfnod ac mewn perthynas â'r diffodd analog gwirioneddol.

Y nodwedd a ddefnyddiwyd lleiaf o'r pecyn digidol yn gynnar yn ystod yr arbrawf oedd **y botwm coch** ar gyfer rhyngweithio, a ddefnyddiwyd gan 58% yn unig o'r ymatebwyr adeg yr arolwg cyntaf. Roedd y defnydd gryn dipyn yn uwch ymhlith dynion (65%) na chan ferched (43%), ac ymhlith pobl rhwng 18-54 oed (68%), yn fwy na phobl hŷn (63% o'r rheiny rhwng 55-64 oed a

45% yn unig o'r rheiny a oedd yn 65 oed ac yn hŷn). Roedd yr ymatebwyr yn y grŵp agored i niwed hefyd yn llai tebygol nag eraill o fod yn manteisio ar y nodwedd hon (49% yn erbyn 63%).

Fodd bynnag, ymhlith y cyfanswm, roedd defnydd defnyddwyr o'r botwm coch yn cael ei weld bron yn gyffredinol fel rhywbeth hawdd i raddau mwy neu i raddau llai, ac roedd y rheiny a oedd yn dweud ei fod yn anodd yn dod bron yn gyfan gwbl o fewn y grŵp a oedd yn agored i niwed.

O ran agwedd, ystyriwyd y botwm coch fel rhywbeth oedd yn "braf i'w gael", ond nid yn nodwedd hanfodol, gan ychwanegu at fwynhau'r teledu i 17% ond eisoes yn angenrheidiol i 4% yn unig. Roedd ganddo hefyd y lefel isaf o ddealltwriaeth o bob un o'r nodweddion oedd wedi'u rhestru, gyda 17% o ymatebwyr yn honni dealltwriaeth anghyflawn o ddefnyddio'r botwm coch (gan godi i 44% o'r rheiny a oedd yn 75 oed neu'n hŷn).

Roedd 88% o ymatebwyr yn defnyddio'r **rheolydd digidol o bell,** gyda 46% yn datgan ei fod yn hawdd iawn i'w ddefnyddio a 31% yn weddol hawdd, ond gyda'r patrymau arferol sy'n ymwneud â rhyw, oed a pha mor agored yw pobl i niwed. Er bod 80% o'r ymatebwyr a oedd yn agored i niwed yn defnyddio'r rheolydd o bell, dim ond 57% oedd yn ei ystyried yn hawdd i'w ddefnyddio. Fe'i hystyriwyd bron yn angenrheidiol gan bron i hanner y grŵp a oedd yn agored i niwed, o'i gymharu â 64% o bobl eraill.

Roedd **profiad o'r canllaw rhaglen electronig (EPG)** yn cael ei brofi a'i ystyried mewn ffyrdd tebyg iawn i'r rheolydd o bell, gyda 79% o ddefnydd o'i gymharu ag 88% ar gyfer y rheolydd, a gyda 73% yn ei ystyried yn hawdd i'w ddefnyddio (sydd efallai'n syndod o ystyried bod y rheiny nad oeddent wedi cael teledu digidol yn eu cartref eu hunain o'r blaen yn llawer llai cyfarwydd â'r cysyniad). Roedd ymatebwyr a oedd yn agored i niwed gryn dipyn yn llai tebygol o ystyried bod yr EPG yn hawdd i'w ddefnyddio nac eraill (49% yn erbyn 85%).

Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd yr EPG eisoes yn offeryn hynod werthfawr yn y cyfnod hwn o ystyried bod pobl yn gymharol anghyfarwydd â'r cysyniad, gyda 30% yn dweud eu bod yn ei ddefnyddio bob dydd ac na fyddent yn gwneud hebddo. Roedd dynion yn ei groesawu yn fwy na merched, a oedd hefyd yn llai tebygol o'i ddeall yn llawn. Roedd yn amlwg na fu'n llwyddiannus gyda'r bobl dros 75 oed, dim ond 7% ohonynt oedd yn ei ystyried yn angenrheidiol ac nid oedd 27% ohonynt yn ei ddeall yn llawn.

Roedd **swyddogaethau recordio** yn cael eu defnyddio gan 70% o'r ymatebwyr cyn diffodd analog, a chan 59% yn unig o'r grŵp a oedd yn agored i niwed, o'i gymharu â 75% o bobl eraill, gyda dirywiad sylweddol yn y defnydd a wnaed ohono gan bobl oedd yn 65 oed ac yn hŷn, yn ogystal ag ailostyngiad sylweddol o 75 oed. Adroddwyd bod y swyddogaethau hyn yn "hawdd i'w defnyddio" gan 56%, gyda'r patrwm cyfarwydd, po fwyaf yr oedran, po fwyaf yr anhawster. Ar gyfer pob un o grwpiau'r oedran iau, roedd dros hanner y defnyddwyr gwirioneddol yn ystyried bod y swyddogaethau recordio yn hawdd i'w defnyddio; nid oedd hyn yn wir ar gyfer defnyddwyr oedd yn 75 oed ac yn hŷn, ac roedd hanner ohonynt yn eu hystyried yn anodd i'w defnyddio. Eto, roedd gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r swyddogaethau recordio yn lleihau gydag oedran.

Roedd **testun digidol** yn cael ei ddefnyddio gan 63%, gyda'r gostyngiad amlycaf o ran ei ddefnyddio yn digwydd rhwng y bandiau oedran 55-64 oed a 65 oed ac yn hŷn (70% a 45% yn y drefn honno). Roedd mwyafrif llethol y defnyddwyr yn ystyried bod testun digidol yn hawdd i'w ddefnyddio, hyd yn oed yn y grŵp o bobl a oedd yn agored i niwed, er y dylid nodi mai hanner o'r grŵp hwn yn unig oedd wedi defnyddio'r nodwedd hon mewn gwirionedd. Roedd testun digidol yn cael ei ystyried yn amlwg fel rhywbeth manteisiol, ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml, gyda thraean o'r rheiny oedd yn 75 ac yn hŷn yn honni nad oeddent yn ei ddeall yn llawn.

5.11 Newidiadau o ran defnyddio nodweddion digidol ac agweddau atynt cyn ac ar ôl diffodd analog (Ton 1 Tablau 13-24 – C12/13 a Thon 2 Tablau 17-28 – C15/16)

Er mwyn dangos y newidiadau mor glir â phosibl, mae'r data o'r ddwy don wedi'i gyflwyno yn y siartiau canlynol. Mae'r ddwy siart gyntaf yn dangos data ar gyfer pob un o'r ymatebwyr a'r ddwy siart olaf ar gyfer pob un o'r ymatebwyr a oedd yn agored i niwed.

Siart 1



Sylfaen - Cyn (214), Ar ôl (195)

Cafodd y ffaith fod pobl yn dod yn fwy cyfarwydd â'r nodweddion digidol dros gyfnod effaith fuddiol o ran lefelau defnyddio a rhwyddineb defnyddio canfyddedig ar gyfer yr EPG, y botwm coch a'r rheolydd o bell, fel a ddangosir gan y siart uchod. Fodd bynnag, roedd yr effaith ar ddefnyddio ac amgyffrediadau o'r swyddogaethau recordio yn llai arwyddocaol, gydag ychydig o newid cadarnhaol yn unig o ran rhwyddineb defnyddio, ac roedd yn ymddangos nad oedd yna unrhyw newid cadarnhaol ar gyfer testun digidol, fel a ddangosir isod.

Siart 2

Agweddau at nodweddion digidol

(cyn / ar ôl diffodd – pob un o'r Ymatebwyr)



Sylfaen - Cyn (214), Ar ôl (195)

Ymhlith y bobl a oedd yn agored i niwed, mae rhai o'r newidiadau rhwng y tonnau yn dilyn gwahanol batrymau o'r sampl gyfan, gyda'r rheolydd o bell yn unig yn cael ei ddefnyddio'n fwy dros gyfnod, ond gyda chynnydd ym mhob achos ac eithrio'r botwm coch o ran y gyfran gyffredinol yn gweld y swyddogaeth yn hawdd i'w defnyddio. O ran agwedd, roedd yn ymddangos bod y grŵp a oedd yn agored i niwed wedi mwynhau a deall yr EPG yn fwy, ond nid oeddent wedi'u hargyhoeddi i'r graddau eu bod yn ei weld yn angenrheidiol. Yn achos y rheolydd o bell, cynyddodd y ddealltwriaeth hefyd, ond y newid mwyaf dramatig oedd y cynnydd yn y gyfran o'r rhai a oedd yn ei ddefnyddio bob dydd, lle cyrhaeddodd y lefel defnyddio ymhlith y grŵp a oedd yn agored i niwed bron yr un lefel ag ymatebwyr eraill.

Siart 3

Pa mor hawdd yw defnyddio'r nodweddion digidol ?
(cyn ac ar ôl diffodd - pob un o'r bobl 'agored i niwed')



Sylfaen - Cyn (70), Ar ôl (56) - gofal, samplau bach

Agweddau at nodweddion digidol

(cyn / ar ôl diffodd – pob un o'r bobl 'agored i niwed')



Sylfaen - Cyn (70), Ar ôl (56) - gofal, samplau bach

I roi rhai o'r ymatebion i'r rheolydd o bell yn eu cyd-destun, gofynnwyd i'r ymatebwyr yn Nhon 2 faint o reolyddion o bell ar wahân yr oeddent yn eu defnyddio i wylio a recordio ar eu prif set deledu ers diffodd analog (Ton 2 Tabl 29 – C17). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61%) yn defnyddio dau reolydd o bell â'u prif set deledu ar yr adeg hon, gyda phobl iau yn defnyddio mwy ar gyfartaledd na'r henoed. Dim ond 15% oedd yn defnyddio un rheolydd o bell yn unig, ac roedd 21% yn defnyddio 3 neu fwy. Ni wyddom sawl rheolydd o bell oedd yn cael eu defnyddio cyn dechrau'r gwasanaethau digidol neu wrth ddarlledu'r signalau digidol ac analog gyda'i gilydd, felly mae'n anodd barnu i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn newid eu harferion yn y cyswllt hwn mewn gwirionedd.

#

5.12 Amgyffrediad o ansawdd Llun a Sain ar deledu digidol o'i gymharu ag analog (Ton 1 Tablau 25-27 – C14)

Yn ystod y cyfnod darlledu ar y cyd, barnwyd bod ansawdd y llun yn well nag o'r blaen gan 82% o'r sampl gyfan, ac yn llawer gwell gan 64%, tra barnwyd ei fod wedi aros yr un fath gan 10%, ac roedd nifer ddibwys yn teimlo bod yr ansawdd wedi dirywio.

Barnwyd bod ansawdd y sain wedi gwella i raddau llai, gyda 57% yn ei ystyried yn well a 40% yn ei ystyried yn llawer gwell, ond 7% yn waeth.

5.13 Amgyffrediad o ansawdd Llun a Sain ar deledu digidol ar ôl diffodd analog (Ton 2 Tablau 13-15 – C13)

Sylwodd bron i hanner yr ymatebwyr ar welliant sylweddol pellach o ran ansawdd y llun pan ddiffoddwyd analog, gyda 71% yn dweud bod ansawdd y llun yn well na'r signal digidol cyn y diffodd a 47% yn dweud ei fod yn llawer gwell. Roedd yna lai o gytuno bod ansawdd y sain wedi gwella, gyda 58% yn barnu bod ansawdd y sain yn well nag o'r blaen.

5.14 Pryd fyddech chi'n dweud yr oedd ansawdd cyffredinol eich derbyniad ar ei orau? (Ton 2 Tabl 12 – C12)

Pan ofynnwyd iddynt gymharu'r derbyniad yn y tair sefyllfa: cyn teledu digidol, yn ystod darlledu analog a digidol ar y cyd ac ar ôl diffodd analog, roedd 62% o'r farn mai'r signal ar ôl diffodd analog oedd y gorau. Roedd ymatebwyr a oedd yn ddynion yn fwy tebygol o fod o'r farn hon na'r ymatebwyr a oedd yn ferched. O blith pob un o'r ymatebwyr, roedd 18% yn teimlo bod y derbyniad ar ei orau tra oedd digidol ac analog ar gael, a dim ond 3% yn glynu at y farn ei fod yn well cyn iddynt gael digidol o gwbl.

5.15 Tair o fanteision mwyaf gwerthfawr teledu digidol (Ton 1 Tablau 28 – C15 a Thon 2 Tabl 30 – C18)

Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn nwy don yr ymchwil, felly gallwn edrych yn gyntaf ar y ffordd yr ystyriwyd y manteision yn ystod y don gyntaf ac yna ar sut y gallai pethau fod wedi newid ychydig fisoedd i mewn i gyfnod yr arbrawf.

Ystyriwyd mai mantais fwyaf gwerthfawr teledu digidol ar ddechrau'r arbrawf oedd y sianelau newydd a oedd ar gael, a oedd wedi'i rhestru ymhlith eu 3 gorau gan 73% o ymatebwyr. Roedd y rhain yn cael eu gwerthfawrogi gan bawb, gydag ychydig iawn o wahaniaethau demograffig, ar wahân i lefel uwch o werthfawrogiad gan ymatebwyr a oedd yn ferched na chan ddynion (84% yn erbyn 69% yn y drefn honno).

Roedd ansawdd y llun, ar y llaw arall, a oedd yn yr ail safle ar y cyfan, y soniwyd amdano gan ddwy ran o dair o ymatebwyr, mewn gwirionedd yn cael ei ystyried fel y peth gorau gan ddynion (71% o ddynion yn erbyn 57% o ferched). Ar wahân i'r gwahaniaethau hyn o ran rhyw sy'n eithaf amlwg yn y ddau brif beth y soniwyd amdanynt, cadarnhawyd nodweddion tebyg i raddau tebyg gan ddynion a merched. Roedd swyddogaethau recordio yn cael eu hystyried fel y trydydd peth pwysicaf ar y cyfan (41%) ond gydag atyniad a oedd yn lleihau yn ôl oedran ac anabledd.

Soniwyd am yr EPG gan 27% yn unig ond roedd ganddo broffil tebyg i'r swyddogaethau recordio.

Roedd ansawdd y llun yn cael ei werthfawrogi gan 23% ac roedd ganddo atyniad a oedd yn cynyddu gydag oedran (ac ymhlith y byddar/trwm eu clyw).

Dim ond 18% a ddewisodd y rheolydd o bell fel un o'u 3 phrif fanteision, ac roedd ei atyniad yn cynyddu gydag oedran ac anabledd, a dim ond 7% a 6% yn y drefn honno oedd yn cefnogi testun digidol a'r botwm coch.

Yn ddiweddarach yn ystod yr arbrawf, ac ar ôl diffodd y signal analog, gofynnwyd i ymatebwyr eto enwi 3 phrif fantais teledu digidol, ac roedd yr atebion a roddwyd wedi newid ychydig iawn ers rhaid misoedd ynghynt.

Er bod ansawdd y llun wedi cynyddu dim ond rhywfaint o 66% i 69%, roedd ansawdd y sain wedi cynyddu'n fwy sylweddol o 23% i 29%; cynnydd a ddaeth yn benodol o blith y dynion (23% i 31%).

Roedd trefn y safle oedd ar gyfer ymatebwyr a oedd yn agored i niwed wedi newid o cyn diffodd analog i ar ôl diffodd analog, gydag ansawdd y llun yn cael ei ddyrchafu i'r safle uchaf (79%) dros y sianelau newydd a oedd ar gael (66%) yn Nhon 2. Roedd ansawdd y sain hefyd wedi codi o ran pwysigrwydd o 30% yn Nhon 1 i 39% yn Nhon 2.

5.16 A oedd angen i chi gael unrhyw waith wedi'i wneud ar eich erialau neu'ch ceblau? (Ton 2 Tabl 16 – C14)

Roedd angen i gyfanswm o 38% o ymatebwyr gael gwaith wedi'i wneud ar eu herialau neu'u ceblau, ac roedd angen hyn ar 23% er mwyn iddynt gael signal o Lanyfferi a 22% i gael teledu digidol i weithio'n iawn.

6 Casgliadau

Yn olaf, byddai'n ymddangos bod y data meintiol yn cadarnhau llawer o'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad ansoddol ac yn adlewyrchu agwedd gadarnhaol at gymryd rhan yn yr arbrawf ac at fanteision teledu digidol. Mae mwyafrif y bobl a fu'n cymryd rhan yn yr arbrawf wedi sylwi ar y derbyniad gwell, ac roeddent yn mwynhau nodweddion eraill teledu digidol. Cynyddodd hyder yr ymatebwyr a oedd yn agored i niwed gyda'r dechnoleg newydd wrth i'r arbrawf fynd yn ei flaen.

7 Prif Ganfyddiadau Ansoddol

#

- Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canfyddiadau o'r ddau gyfnod o gyfweliadau ansoddol yn y cartref gyda phobl oedrannus a phobl a oedd yn agored i niwed yn Llansteffan a Glanyfferi. Cynhaliwyd y cyfnod cyntaf gydag wyth o dai ar ddiwedd mis Rhagfyr 2004, yn fuan ar ôl iddynt gael y blychau pen-teledu. Cynhaliwyd yr ail gyfnod â naw o dai ym mis Ebrill 2005, tua thair wythnos ar ôl diffodd analog.
- Nod yr ymchwil hwn oedd darganfod pa mor dda yr oedd y bobl oedrannus a'r bobl a oedd yn agored i niwed yn ymdopi â'r newid i ddigidol a nodi unrhyw broblemau penodol yr oeddent wedi'u cael dros gyfnod.
- Roedd y bobl oedrannus y cyfwelwyd â hwy yn gadarnhaol iawn am yr arbrawf ac roeddent yn falch bod eu pentrefi wedi'u dewis ar gyfer y prosiect hwn.

- Roedd eu profiad a'u gallu gyda thechnoleg newydd yn amrywiol iawn. Roedd gan rai ymatebwyr oedrannus gefndiroedd technegol a/neu roeddent yn weddol gyfarwydd â'r dechnoleg ddiweddaraf, gan ddefnyddio ffonau symudol, cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd yn hawdd. Roedd eraill yn amhrofiadol, yn poeni ac wedi drysu gan yr offer newydd a oedd wedi'i roi iddynt.
- Roedd un ymatebwr yn unig wedi dewis gosod yr offer ei hun, ond roedd yn iau na'r rhan fwyaf yn y sampl ac roedd ganddo gefndir technegol hefyd. Roedd yn ei ystyried yn syml i'w osod, ond cafodd rai problemau yn tiwnio'r blwch pen-teledu ei hun.
- Roedd pob un o'r ymatebwyr eraill yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y ffitwyr a oedd wedi gosod eu systemau.
- Roedd yr ymatebwyr hefyd yn fodlon â'r gwasanaeth desg gymorth ar y ffôn, ond roedd y wybodaeth dechnegol sylfaenol a oedd ei hangen i roi cyfarwyddiadau ffôn ar waith yn ormod i rai o'r deiliaid cartref oedrannus.
- Cyn diffodd analog, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eisoes yn defnyddio'r sianelau digidol ac roeddent yn gallu cyflawni'r gweithrediadau sylfaenol gofynnol, fel troi'r sianelau ymlaen a'u newid, ond roedd rhai ohonynt yn dal i ddefnyddio analog neu roeddent yn cael llawer o broblemau yn cael mynediad at y sianelau digidol.
- Yn ystod cyfnod cyntaf y cyfweliadau, roedd ymatebwyr yn bennaf yn dal i wylio'r teledu fel yr oeddent wedi gwneud o hyd, ac roeddent yn dal i ddefnyddio rhestrau wedi'u cyhoeddi yn hytrach na chanllaw rhaglen electronig (EPG).
- Ychydig iawn o ymatebwyr a oedd wedi defnyddio neu hyd yn oed wedi archwilio defnyddio gwasanaethau digidol a rhyngweithiol eraill, gan gynnwys yr EPG.
- Mae hyn yn rhannol am nad oeddent wir yn deall am y gwasanaethau ychwanegol a oedd ar gael ar ddigidol ac yn rhannol am eu bod yn poeni'n fawr am bwyso'r 'botwm anghywir' a pheidio â gallu mynd yn ôl at eu sianelau arferol.
- Un rheswm dros y diffyg defnydd hwn o wasanaethau digidol yw bod pobl oedrannus yn aml yn arafach yn dysgu pethau newydd. Un rheswm arall yw nad yw llawer o'r genhedlaeth hon yn gyfarwydd o gwbl neu mae ganddynt adnabyddiaeth brin iawn o gonfensiynau offer electronig, boed yn deledu, yn ffôn symudol neu'n gyfrifiadur. Nid ydynt yn deall am systemau sy'n cael eu hysgogi gan ddewislenni, am doglau neu am y ffaith y gallai fod yna fwy nag un ffordd o gael yr un canlyniad. Mae hyn yn gwneud gweithredu'r rheolydd o bell yn llawer llai 'sythweledol' nag y mae i berson iau sy'n deall mwy am bethau technegol.
- Roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r deiliaid cartref y gwnaethom ymweld â nhw yn ymddangos fel pe baent yn ei chael yn haws yn yr achos cyntaf i rywun ddangos iddynt sut i weithredu'r system, yn hytrach na gorfod dibynnu ar lawlyfr cyfarwyddyd ysgrifenedig. Ac roedd angen rhywfaint o brofiad uniongyrchol arnynt i atgyfnerthu'r wers ac i roi hyder iddynt. Roeddent wedyn yn aml wedi cofnodi'r cyfarwyddiadau sylfaenol hyn neu wedi gofyn iddynt gael eu cofnodi'n ysgrifenedig.
- Yn ein hail gyfnod o gyfweliadau, yn gyffredinol, roedd pob un o'r bobl y cyfwelwyd â hwy yn fodlon iawn â'r Arbrawf ac roeddent yn weddol fedrus yn gweithredu eu blychau pen-teledu.
- Roeddent yn teimlo bod y trosglwyddo o analog i ddigidol wedi'i gynllunio a'i weithredu'n ofalus iawn a bod y tîm cefnogi, trwy ei gyfathrebu a'i gymorth uniongyrchol, wedi gwneud y broses mor hawdd ag y gallai fod.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dal i ddefnyddio'r ddarpariaeth ddigidol mewn ffordd gweddol gyfyngedig yn unig, i wylio'r rhaglenni yr oeddent yn eu gwylio o'r blaen gyda sianelau analog.

- Ond gyda hyder cynyddol, roedd y rhan fwyaf wedi rhoi cynnig ar sianelau newydd, a rhai bellach yn defnyddio gwasanaethau rhyngweithiol yn rheolaidd, gan gynnwys yr EPG, amserlenni a rhaglenni amgen ac ychwanegol a oedd ar gael trwy'r 'botwm coch'.
- Roedd yr ymatebwyr oedd â Recordwyr Fideo Personol (PVRs) yn gyffredinol yn fwy hyderus yn defnyddio'r gwasanaethau hyn na'r ymatebwyr oedd â blwch pen-teledu digidol yn unig.
- Nid yw setiau llaw'r rheolydd o bell wedi'u cynllunio'n ergonomig iawn ac, yn benodol, mae'r geiriau dros neu ar y botymau yn aml yn rhy fach i lawer o bobl oedrannus eu darllen. O ganlyniad, parhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i ddefnyddio un neu ddau o'r botymau'n unig yr oeddent yn gwybod sut i'w gweithredu.
- Byddai setiau llaw wedi'u cynllunio'n well, yn ei gwneud yn haws i bobl oedrannus ddysgu sut i gael mynediad at wasanaethau digidol a'u defnyddio, ac, yn benodol, byddent wedi cael cysur gan bresenoldeb botwm 'Cartref' i fynd â defnyddwyr yn ôl i'r sgrin agoriadol o unrhyw le yn y system.
- Rydym yn argymell addysg am wasanaethau digidol ar gyfer prynwyr i gynyddu dealltwriaeth o wasanaethau a sut i gael mynediad atynt. Ar gyfer cartrefi sydd ag offer wedi'i osod o'r newydd sydd â phobl sy'n agored i niwed, rydym hefyd yn argymell sesiwn hyfforddiant bersonol, gychwynnol, gam wrth gam i addysgu'r gweithrediadau sylfaenol gyda galwad ffôn ddilynol. Gallent elwa hefyd ar ymweliad diweddarach fel y gallant ddysgu sut i ddefnyddio 'ychwanegiadau' digidol eraill, fel yr EPG, ffefrynnau, teledestun, gemau a gwasanaethau rhyngweithiol.
- Rydym hefyd yn argymell mwy o ddefnydd o deip mawr mewn llawlyfrau cyfarwyddyd ac ar setiau llaw i ddefnyddwyr sydd â nam ar eu golwg.

8 Y Sampl

8.1 Y Sampl (Cyfnod Cyntaf)

Roedd cyfnod cyntaf yr ymchwil ansoddol yn cynnwys cyfweliadau manwl ag wyth o gartrefi, pum cartref yn Llansteffan a thri chartref yng Nglanyfferi ar 21 a 22 Rhagfyr 2004. Mae'r tabl isod yn dangos proffil yr ymatebwyr y cyfwelwyd â hwy.

	Oedran	**Anabledd**
Pâr	60au	Dim
Pâr	80au	Gwraig fethedig
Pâr	70au	Gŵr â nam ar ei olwg
Pâr	Gŵr 70au, Gwraig 50au	Gwraig yn gaeth i'w gwely
Gweddw	80au	Symudedd cyfyngedig, byddar
Gweddw	70au	Dim
Gweddw	70au	Golwg wael
Gweddw	70au	Dim

Dewiswyd yr ymatebwyr o restr o ddeiliaid cartref yr oedd y DCMS wedi cysylltu â nhw ac yr oeddent wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol. Mae'n debyg eu bod yn cynrychioli trawsdoriad o boblogaeth oedrannus y ddau bentref hyn, y mae'r ddau yn lleoedd poblogaidd ar

gyfer bythynnod gwyliau ac ar gyfer ymddeol. Saeson oedd pob un o'r ymatebwyr ar wahân i un a oedd wedi symud i Orllewin Cymru i ymddeol, ond roedd dau eisoes wedi bod yn gweithio yng Nghymru ac wedi aros yno ar ôl ymddeol, ac roedd sawl un wedi byw yno am 10 i 20 mlynedd. Roedd yr un preswylydd a oedd wir yn 'lleol', yn siarad Cymraeg, a chynhaliwyd y cyfweliad yn Gymraeg.

8.2 Y Sampl (Ail Gyfnod)

Roedd ail gyfnod yr ymchwil ansoddol yn cynnwys cyfweliadau manwl â naw o gartrefi, pedwar cartref yn Llansteffan a phum cartref yng Nglanyfferi ar 20 a 21 Ebrill 2005. Mae'r tabl yn dangos proffil yr ymatebwyr y cyfwelwyd â hwy.

	Oedran	**Anabledd**
Pâr	80au	Gwraig fethedig
Pâr	Gŵr 70au, Gwraig 50au	Gwraig yn gaeth i'w gwely
Pâr	60au	Dim
Pâr	60au	Dim
Pâr	60au	Gwraig yn gaeth i'w gwely
Dyn Sengl	90au	Dim
Gweddw	70au	Golwg wael
Gweddw	70au	Dim
Gweddw	70au	Dim

Roedd tri o'r ymatebwyr yn Gymry, Saeson oedd y lleill, ond roeddent i gyd wedi bod yn byw yng Nghymru ers tro. Cynhaliwyd pob un o'r cyfweliadau yn Saesneg.

Fe wnaethom gyfweld â phump o gartrefi yr oeddem wedi eu cyfweld ym mis Rhagfyr a phedwar o gartrefi nad oeddem wedi eu cyfweld o'r blaen.

9 Yr Arbrawf

Roedd pob un o'r ymatebwyr, heb unrhyw eithriad, yn gadarnhaol iawn am yr arbrawf, ac roeddent yn falch bod eu pentrefi wedi'u dewis ar gyfer y prosiect hwn. Fe wnaethant fwynhau'r sylw a gawsant, y sylw yn y wasg leol a chenedlaethol a'r ffrwd gyson o ymwelwyr.

O safbwynt ymarferol, gan fod y signal analog yn Llansteffan a Glanyfferi yn wael, cyn y newid i ddigidol, roedd pawb yn edrych ymlaen at dderbyniad gwell ar sianelau'r teledu yr oeddent yn gyfarwydd â'u gwylio. Ac yn gyffredinol, ni chawsant eu siomi.

Roedd y newid i ddigidol yn hawdd iawn, ac roedd y trigolion yn gallu gwylio adroddiadau newyddion ar y teledu am eu pentrefi gyda balchder a derbyniad ardderchog.

Yn ogystal â'r derbyniad gwell, i raddau amrywiol, roedd yr ymatebwyr hefyd yn chwilfrydig i roi cynnig ar y sianelau digidol ychwanegol, nad oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi gallu eu derbyn o'r blaen. Roedd gan un cartref y cyfwelwyd ag ef Sky, ac roedd cartref arall wedi cael Sky o'r blaen, ond i bob un o'r lleill, roedd sianelau ychwanegol a throsglwyddo digidol yn brofiadau newydd.

10 Technoleg

Nid yw'r ffaith eu bod yn bobl oedrannus yn golygu nad oes ganddynt ddiddordeb mewn technoleg newydd ac nad ydynt yn gallu ei thrin. Roedd gan y dyn ieuengaf yn y sampl gryn dipyn o brofiad technegol ac roedd wedi dewis gosod y blwch pen-teledu ei hun. Roedd gan un dyn gyfrifiadur ac roedd yn defnyddio'r rhyngrwyd a'r e-bost yn rheolaidd ac yn edrych ymlaen at fynd i'r afael â'r blychau digidol. Roedd eraill wedi deall eu hoffer yn weddol hawdd, ond yn fwy nodweddiadol, roedd yr ymatebwyr yn mynd i ddau gategori, sef y rheiny nad oeddent wedi deall sut i weithredu'r blwch pen-teledu o hyd a'r rheiny a allai wneud y pethau sylfaenol ar eu setiau teledu (cychwyn, newid sianelau) ond heb fynd ymhellach.

Ym mis Rhagfyr, roedd nifer o'r ymatebwyr yn dal i gael problemau sylweddol yn gweithredu eu blychau pen-teledu. Roeddent yn bryderus iawn ynglŷn â'r broses gyfan. Roedd hyd yn oed y gweithrediadau sylfaenol, fel cychwyn neu ddewis sianelau, yn achosi pryder ac roedd unrhyw beth mwy soffistigedig, fel defnyddio'r EPG neu'r gwasanaethau rhyngweithiol, yn amhosibl. Roedd cyfres o staff technegol wedi ymweld â rhai o'r ymatebwyr y gwnaethom eu cyfweld cyn y Nadolig, ac adeg ein hymweliad roeddent yn dal i fethu gwneud y gweithrediadau sylfaenol yn gyson. Roedd y dechnoleg yn codi 'ofn' ar nifer o'r trigolion hyn, ac nid oeddent yn siŵr o gwbl y byddent erioed yn gallu meistroli'r tasgau syml o gychwyn y teledu a dewis y rhaglenni roeddent am eu gwylio, heb sôn am ddewis rhaglenni i'w gwylio yn y dyfodol, neu gael mynediad at wasanaethau rhyngweithiol.

Yn ein hail ymweliad, roedd yn amlwg bod pob un o'r trigolion wedi gwneud cynnydd a dim ond un o'r ymatebwyr y gwnaethom gyfweld â nhw oedd yn dal i gael problemau â gweithredu'r set mewn modd sylfaenol. Roedd pob un o'r lleill wedi symud i fyny'r gromlin ddysgu i ryw raddau ac roeddent yn hyderus am y pethau sylfaenol a gwnaeth bron pob un ohonynt fynegi eu cyflawniadau yn yr un geiriau:

"Rydw i fwy neu lai yn ei ddeall!"

Benyw, Glanyfferi

Nid oedd hyn yn golygu eu bod wedi meistroli sut i ddefnyddio'r blwch pen-teledu, ond roeddent wedi:

"Ei ddeall mor bell â'r hyn sydd ei angen."

Gwryw, Llansteffan

Roedd pawb yn gallu gwylio'r rhaglenni yr oeddent am eu gwylio. Roedd y rhain yr un rhaglenni â'r rhai yr oeddent wedi'u gwylio ar sianelau analog yn bennaf, ond roeddent bellach yn eu gwylio yr un mor hawdd ar y sianelau digidol ag yr oeddent ar analog. Ychydig iawn o bryder oedd yn gysylltiedig â'r broses bellach.

Roedd yna dri newid rhyngberthynol wedi digwydd i ysgogi hyn – y newid cyntaf oedd eu bod i gyd wedi cael llawer mwy o ymarfer a phrofiad yn defnyddio'r offer, yr ail oedd eu bod wedi dysgu sut i ddatrys anawsterau eu hunain ac efallai yn bwysicach na dim, roeddent i gyd wedi dod yn llawer mwy hyderus ynglŷn â defnyddio'r offer, fel y dywedodd un ymatebwr:

"Hyder yw'r peth mawr."

Benyw, Glanyfferi

Ac nid oedd yr hyder yr oeddent wedi'i ennill yn golygu'n unig yr hyder a gawsant o gael pethau'n gywir, er bod hyn yn bwysig, ond roedd hefyd yn hyder nad oedd ots mewn gwirionedd

os oeddent yn gwneud pethau'n anghywir. Ar y dechrau, roedd y rhan fwyaf o'r trigolion wedi trin y blwch pen-teledu a'r rheolydd o bell gyda rhywfaint o bryder, a gwnaed yr un sylw fwy neu lai gan nifer:

"Roedd arna i ofn torri'r peth cyfan pe bawn i'n pwyso'r botwm anghywir."

Benyw, Glanyfferi

Gydag amser, roeddent wedi dysgu bod yr offer yn gryfach nag yr oeddent yn credu ydoedd, ac roeddent wedi dysgu hefyd pe bai popeth arall yn methu y gallent ei ddiffodd a dechrau eto:

"Os ydych yn gwneud rhywbeth yn anghywir, rydych yn syml yn mynd yn ôl i'r dechrau."

Benyw, Llansteffan

"Y peth mawr os ydw i'n cael trafferth yw fy mod yn ei ddiffodd ac yn dechrau eto."

Gwryw, Glanyfferi

Ond hefyd, gydag amser, roeddent wedi bod yn dysgu sut i wneud y pethau sylfaenol ac yna ychwanegu at eu casgliad o sgiliau yn araf; fel y dywedodd un ymatebwr:

"Rydych yn dal i ddysgu gwersi bach."

Gwryw, Llansteffan

11 Gosod

11.1 Hunanosod

Roedd yr un person a oedd wedi gosod ei offer ei hun wedi'i chael yn hawdd iawn i'w osod a dywedodd ei fod wedi ei gysylltu ei hun mewn rhyw bum munud, ond roedd yn rhywun DIY brwdfrydig a oedd yn weddol ymarferol, a oedd â phrofiad o osod offer trydanol. Fodd bynnag, cafodd ef broblem hyd yn oed yn tiwnio'r blwch pen-teledu am nad oedd y llawlyfr cyfarwyddyd yn esbonio bod angen i chi bwyso OK ar ddiwedd dilyniant penodol.

11.2 Erialau

Roedd angen erialau newydd ar nifer o gartrefi, yn ôl cyngor y ffitwyr, sy'n gost ychwanegol sylweddol (ac annisgwyl) i'w thalu. Roeddent yn derbyn hyn yn gyffredinol, ond mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei wneud yn glir iawn ar y dechrau.

11.3 Blychau pen-teledu

Er ein bod yn deall ei bod yn bwysig arbrofi gyda gwahanol flychau pen-teledu, roedd hyn yn amlwg yn ei gwneud yn anos i gymdogion a ffrindiau gynghori ei gilydd, oherwydd yn aml roedd ganddynt wahanol flwch pen-teledu. Gallai fod wedi bod yn well dyrannu un math o flwch yn Llansteffan a math arall yng Nglanyfferi.

11.4 Recordwyr Fideo Personol (PVRs)

Mewn pentref bach cyfeillgar, mae pawb yn siarad â'u cymdogion a'u ffrindiau ac yn cymharu nodiadau. Roedd rhai o'r cartrefi yr ymwelwyd â hwy wedi cael Recordwyr Fideo Personol, ond nid oedd eraill wedi'u cael. Er nad oedd yna unrhyw un yn cwyno am hyn, roedd yna ddealltwriaeth annigonol o'r rheswm dros y dewis, a mynegodd llawer o ddeiliaid cartref eu bod yn awyddus i gael Recordiwr Fideo Personol, os oeddent ar gael.

11.5 Ffitwyr

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn falch â'r ffitwyr a oedd wedi dod draw i osod y blychau pen-teledu. Dangosodd bob un ohonynt sut i ddefnyddio'r blwch pen-teledu, ond mewn rhai achosion, roedd yr arddangosiad drosodd yn gyflym. Gall fod yn anodd i ffitiwr sy'n gosod ac yn dangos nifer fawr o flychau pen-teledu bob dydd werthfawrogi sut deimlad yw defnyddio'r offer am y tro cyntaf. Credwn y dylent wneud yn siŵr bod deiliaid y cartrefi'n gallu mynd trwy ddilyniant arferol – troi ymlaen, newid sianelau, diffodd.

11.6 Desg-Gymorth

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yng nghyfnod cyntaf ein hymchwil wedi cysylltu â'r ddesg gymorth ac yn ei gweld yn fuddiol, ond gall yr iaith dechnegol a ddefnyddir ganddynt fod yn ddigon i godi ofn arnoch, hyd yn oed os yw hi'n angenrheidiol ei defnyddio i egluro'r offer yn y cartref neu roi'r ateb posibl i'r broblem. Fe wnaethom ffonio'r ddesg gymorth i gael cyngor ar ddadrewi blwch pen-teledu ar ran ymatebwr, a gofynnwyd i ni, er enghraifft, a oedd gan y set deledu gysylltiad SCART. Ni fyddai'r deiliad cartref penodol hwnnw a oedd yn agored i niwed wedi gallu ateb y math hwnnw o gwestiwn.

11.7 Aildiwnio

Fel rhan o ddiffodd analog, roedd yn rhaid i bob cartref aildiwnio'u blychau pen-teledu digidol. Yr argraff gyffredinol gan y tîm digidol oedd bod y diffodd wedi bod yn hynod ddidrafferth, a chadarnhawyd hyn gan y sylwadau gan bob un o'r trigolion y cyfwelwyd â hwy; dywedodd un ohonynt:

"Dydw i ddim wedi clywed am unrhyw un sydd â phroblemau."

Benyw, Glanyfferi

Roedd y bobl hynny a oedd yn teimlo'u bod yn gallu tiwnio'u blychau pen-teledu eu hunain wedi dilyn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer eu model penodol heb lawer o anhawster:

"Fe wnes i ddilyn y cyfarwyddiadau yn unig ac fe weithiodd."

Benyw, Glanyfferi

Roedd hyn yn rhannol am fod y cyfarwyddiadau wedi'u hysgrifennu mewn dull hygyrch iawn:

"Y peth da oedd bod y cyfarwyddiadau wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir."

Gwryw, Llansteffan

Roedd y trigolion hynny a oedd yn teimlo nad oeddent yn gallu aildiwnio'r blwch pen-teledu eu hunain wedi gofyn am gymorth ac wedi'i gael:

"Fe ddaethon nhw i'w aildiwnio i mi, ac maen nhw wedi bod yn wych - ni fyddent wedi gallu bod yn well."

Benyw, Glanyfferi

11.8 Tîm Cynorthwyol

Roedd yna ganmoliaeth ddigymell i'r tîm a fu'n gweithio ar y peilot digidol:

"Roedden nhw'n wych."

` Benyw, Llansteffan

"Fe gefais bob cymorth yr oedd ei angen arna i."

Gwryw, Glanyfferi

"Tîm ardderchog yn Ben Evans."

Benyw, Glanyfferi

Yn achos rhai o'r trigolion oedrannus, roeddent wedi gofyn am gymorth ac wedi cael cymorth ar sawl achlysur:

"Rydw i wedi cael ffrwd gyson o ddynion ifanc yn dod i mewn i fy helpu!"

Benyw, Glanyfferi

Roedd yna ganmoliaeth hefyd am y ffordd y bu i'r tîm digidol aros mewn cysylltiad agos â thrigolion Glanyfferi a Llansteffan:

"Roedd y cyfathrebu'n wych trwy gydol yr Arbrawf."

Gwryw, Llansteffan

12 Effaith Gymunedol

Un o ganlyniadau annisgwyl yr Arbrawf oedd ei fod wedi gwella "ysbryd cymunedol" y ddau bentref. Mae pentrefwyr wedi arfer helpu ei gilydd, ond does dim dwywaith bod amlder a graddau hyn wedi gwella trwy gymdogion gwybodus yn helpu ei gilydd i gael eu blychau pen-teledu ar waith:

"Os ydym yn cael trafferthion, rydym yn ffonio Steve, ein cymydog tri thŷ i lawr. Mae'n wybodus ynghylch cyfrifiaduron ac mae'n dweud wrthym ni beth i'w wneud."

Gwryw, Llansteffan

Gallwch chi fel arfer gael cymydog i ddangos i chi."

Benyw, Glanyfferi

Ond mae'r effaith wedi bod yn ehangach na hyn, os dim ond am iddo roi testun sgwrs a her gyffredin i bawb. Heb or-bwysleisio'r achos, roedd yn ymddangos bod cymdogion nawr yn fwy tebygol o siarad â'i gilydd a rhannu eu profiadau a'u hawgrymiadau ar sut i oresgyn problemau, i'r graddau ei fod yng ngeiriau un person:

"Wedi helpu'r gymuned."

Benyw, Glanyfferi

13 Ymagweddau at Wylio'r Teledu

#

Ym mis Rhagfyr, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn dal yn gwylio'r teledu fel yr oeddent wedi gwneud o hyd i bob pwrpas, neu'n dweud eu bod. Roeddent i gyd yn defnyddio amserlenni wedi'u cyhoeddi (Radio Times neu bapur newydd) i'w helpu i ddewis eu rhaglenni, a doedd neb yn defnyddio'r EPG yn ddigymell (nid oedd rhai'n ymwybodol ohono mewn gwirionedd).

Roeddent yn chwilio am, ac yn gwylio'r sianelau ychwanegol y gallent bellach gael mynediad atynt, ond nid oeddent yn gwylio'r teledu yn fwy. Roedd y bobl fwyaf mentrus wedi bod yn edrych ar sianelau siopa, er enghraifft, ond doedd neb wedi hyd yn oed ystyried prynu ar-lein. Cyfeiriwyd yn ddidaro at y switsh i'r fersiwn Cymru o BBC2, ond roedd hyn yn cael ei ystyried yn broblem dros dro yn codi o'r arbrawf, a fyddai'n cael ei datrys maes o law.

Erbyn mis Ebrill, roedd hyn wedi newid. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cyfwelwyd a nhw yn parhau i wylio mwy neu lai'r un rhaglenni ag o'r blaen, roeddent yn fwy tebygol o fod yn eu gwylio ar sianelau eraill nag o'r blaen, er enghraifft, gwylio ailddarllediadau neu enghreifftiau eraill o hoff genre (roedd yn ymddangos bod ffilmiau dirgelwch a chyffro yn boblogaidd iawn). Roedd pawb hefyd wedi archwilio rhaglenni'r sianelau eraill i ryw raddau:

"Rwy'n dechrau defnyddio ychydig ar y rhai eraill."

Gwryw, Llansteffan

"Rwy'n cael cipolwg ar y sianelau eraill."

Benyw, Glanyfferi

Ond nid oedd y dewis hwn o raglenni fel arfer yn cynnwys defnyddio'r EPG neu'r amserlenni ar-lein. Roedd pobl oedrannus yn benodol yn dal yn hoffi dewis beth yr oeddent am ei wylio o'r dudalen argraffedig, hyd yn oed os oeddent bellach yn gwylio sianelau newydd:

"Ydw, rwy'n edrych ar wahanol sianelau. Rwy'n nôl y Radio Times ac yn edrych beth sydd ar y teledu…"

Benyw, Glanyfferi

Defnyddiodd dau o'r bobl ieuengaf a mwyaf technegol o'r sampl yr EPG i lywio ac arwain eu gwylio a'r defnydd o'r Recordiwr Fideo Personol, ond fe wnaethant dynnu sylw at broblem â'r amserlen arweiniad:

"Mae'n cymryd amser hir i roi manylion rhaglen ar gyfer y dyddiau nesaf."
Gwryw, Glanyfferi

"*Y gŵyn fwyaf sydd gen i yw ei bod yn araf iawn llwytho amserlenni'r teledu"*
Gwryw, Llansteffan

Roedd un o'r ymatebwyr wedi cael Sky o'r blaen, felly roedd yn gallu cymharu'r gwasanaeth Freeview ag amserlenni digidol Sky, a'r hyn yr oedd yn ei gofio am Sky oedd ei fod yn digwydd *"bron ar unwaith"*.

O ran prynu ar y sianelau siopa, mae hyn bellach wedi dod yn weithgaredd rheolaidd i rai o'r cartrefi sy'n fwy hyderus yn dechnegol.

14 Ymagweddau at Deledu Digidol

#

(i) Profi a Methu

Er eu bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r arbrawf pan wnaethom ymweld ym mis Rhagfyr, roedd yna lawer i'r cartrefi hyn ei ddysgu ac roedd y rhan fwyaf yn betrusgar iawn ynghylch arbrofi, yn poeni y gallent bwyso botwm ac na fyddent yn gallu mynd yn ôl at y sianelau cyfarwydd yr oeddent am eu gwylio. Roedd pethau'n digwydd a oedd yn ymddangos eu bod yn amhosibl eu newid, er enghraifft, roedd gan rai cartrefi isdeitlau fel y gosodiad arferol - gellir newid hyn yn hawdd, ond rhaid i chi wybod bod hyn yn wir ac yna sut i'w wneud! Roedd un deiliad cartref mwy mentrus wedi defnyddio'i Recordiwr Fideo Personol, ac roedd wedi gwneud argraff dda arni, ond ni allai ddatrys sut i'w osod i recordio ymlaen llaw. Mewn ffordd, roedd y ffitwyr yn amlwg wedi ychwanegu at rai o'r pryderon ynghylch arbrofi trwy ddweud wrth rai o'r deiliaid cartref oedrannus i beidio byth â 'phwyso'r botwm Coch'. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw un, er enghraifft, yn gwybod y gallent ddewis 'hoff sianelau' a allai wneud y gwylio'n haws: roedd y rhan fwyaf ohonynt yn hytrach wedi ysgrifennu codau allweddol y sianel.

Roedd yna ddwy neu dair problem ryngberthynol ar waith yma. Yn gyntaf, nid oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan yn yr arbrawf yn gwybod beth oedd gallu llawn y system ddigidol a roddwyd iddynt. Er eu bod yn gwybod y byddai ganddynt bob un o'r sianelau yr oeddent wedi'u harfer â nhw yn ogystal â rhai sianelau newydd, nid oeddent o angenrheidrwydd yn gwybod am bob un o'r elfennau rhyngweithiol a oedd yn cael eu cynnig. Nid oes yna reswm pam y dylent fod wedi gwybod am yr EPG neu am y botwm "i" neu fod yna deledestun digidol a gemau rhyngweithiol ar gael ar eu setiau teledu. Dyma'r holl bethau yr oedd angen i rywun eu dangos iddynt ac yr oedd angen cymorth arnynt i'w harchwilio. Yn ein profiad o ymchwilio cyflwyno gwasanaethau digidol gyda phob math o gartrefi, mae'n cymryd amser i bobl ddysgu am y gwasanaethau digidol amrywiol a'u defnyddio. Plant fel arfer yw'r cyflymaf i ddysgu ac addasu i'r offer newydd a phobl oedrannus yw'r arafaf fel arfer. Un rheswm syml dros hyn yw bod pobl oedrannus yn fwy anghofus ac mae angen mwy o ymarfer a mwy o atgyfnerthiad arnynt i ddysgu sut i ddefnyddio'r offer newydd. Rheswm arall yw eu bod yn gyffredinol yn fwy petrusgar ynglŷn â defnyddio'r EPG gan fod arnynt ofn 'torri rhywbeth' neu beidio â gallu mynd yn ôl i'r sianelau cyfarwydd y maent fel arfer yn eu gwylio.

(ii) Manteision Teledu Digidol

Cynyddwyd y pwerau trosglwyddo o ganlyniad i ddiffodd analog ym mis Mawrth, a ddylai fod wedi darparu derbyniad teledu gwell ar ôl diffodd analog nag o'r blaen. Gan fod y signal analog wedi bod yn wael i lawer o'r cartrefi, cafwyd llun gwell yn sgil y newid i ddigidol, a sylwodd y rhan fwyaf o'r trigolion ar hyn ac roeddent yn ei werthfawrogi:

"Llun yn amlwg yn well – mae'n glir iawn."

Benyw, Glanyfferi

Ond roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y newid wedi cael llawer iawn o effaith, yn enwedig lle'r oeddent wedi cael llun gweddol dda ar deledu analog o'r blaen:

"Byddwn yn dweud nad oes llawer o wahaniaeth yn ansawdd y llun."

Benyw, Glanyfferi

Fel a nodwyd gennym, adeg ein hail ymweliad ym mis Ebrill, roedd y trigolion bellach yn llawer mwy hyderus ynglŷn â defnyddio'u hoffer digidol, ond roeddent yn dal yn bennaf yn defnyddio ymagweddau cyfyngedig at eu defnyddio. Er enghraifft, roedd llawer yn dal i symud sianelau trwy roi rhifau sianel i mewn, yn hytrach na defnyddio saethau ar y set llaw. Nid oedd llawer yn defnyddio'r EPG ar yr amserlenni, ac roedd yn ymddangos mai ychydig iawn oedd yn ymwybodol o'r wybodaeth neu'r botwm 'i' ar eu set llaw. Roedd rhai wedi rhoi cynnig ar deledestun rhyngweithiol, ond doedd neb yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd. Roedd un ymatebwr yn credu ei fod yn rhy drafferthus i'w ddefnyddio:

"Dydy e ddim cystal â theledestun confensiynol oherwydd mae'n rhaid i chi fynd trwy lawer o ddewislenni."

Gwryw, Glanyfferi

Tra wnaeth un ymatebwr â golwg wael ei wrthod ar y sail ei fod yn anodd i'w ddarllen:

"Mae'n anos darllen ar y sgrin na darllen y gair argraffedig oherwydd y dewis o liwiau cefndir ."

Benyw, Glanyfferi

Roedd y defnydd o wasanaethau rhyngweithiol yn amrywiol. Er nad oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn eu defnyddio, roedd mwy yn sicr wedi rhoi cynnig arno, hyd yn oed os gwnaethant ei wrthod wedyn:

"Rydw i wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio'r gwasanaeth rhyngweithiol, ond dydw i ddim yn gweld llawer o bwrpas iddo."

Gwryw, Glanyfferi

Ond roedd dau o'r cartrefi yr ymwelwyd â hwy yn defnyddio'r gwasanaeth rhyngweithiol i ddilyn cynnydd Pencampwriaeth Snwcer y Byd a oedd ar y teledu adeg y cyfweliadau:

"Rydw i wedi bod yn ei ddefnyddio i ddilyn y snwcer, a gallwch ddewis pa gêm i'w gwylio."

Gwryw, Llansteffan

"Rydw i wedi bod yn gwylio'r snwcer gyda'r gwasanaeth rhyngweithiol – dangosodd fy mab i mi sut i'w wneud."

Gwryw, Llansteffan

Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod mab yr ymatebwr olaf, a oedd yng nghanol ei 80au, yn gwybod am y gwasanaeth rhyngweithiol, ac wedi dangos iddo sut i gael mynediad at y snwcer, ond bellach oed y tâd yn hyderus iawn ynghylch sut i'w wneud drosto'i hun.

15 Recordiwr Fideo Personol

#

Does dim dwywaith i'r Recordiwr Fideo Personol gael croeso da, ac roedd yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n hawdd iawn i'w weithredu:

"Un peth rwyf yn ei hoffi yw eich bod yn gallu pwyso hwnnw unwaith a bydd yn recordio'r rhaglen honno'n unig."

Gwryw, Llansteffan

Ac roedd yn amlwg bod yr ymatebwyr oedd â Recordiwr Fideo Personol gartref yn fwy cartrefol gyda'r EPG a'r amserlen deledu na'r ymatebwyr eraill am fod angen iddynt ddefnyddio'r rhain i ddewis pa raglenni i'w recordio.

Roedd un deiliad cartref y cyfwelwyd ag ef yn cael problemau â'i Recordiwr Fideo Personol yn methu recordio rhaglenni'n llawn, ond ef oedd yr unig berson i sôn am y broblem hon, ac roedd peiriannydd a alwodd yn ystod y cyfweliad yn teimlo bod y broblem yn fwyaf tebygol o gael ei hachosi gan safle erial y cartref, yn hytrach na chan y Recordiwr Fideo Personol ei hun.

Gan mai cof cyfyngedig yn unig sydd gan y Recordiwr Fideo Personol, roedd o leiaf un ymatebwr eisiau dod o hyd i ffordd o gopïo rhaglenni a recordiodd, ond hyd yn hyn roedd wedi rhoi cynnig arni ac wedi methu:

"Dydw i ddim wedi deall sut i drosglwyddo rhaglen o'r Recordiwr Fideo Personol i'r Recordiwr Casetiau Fideo"

Gwryw, Glanyfferi

(iii) Defnyddioldeb

Mae llawer o offer electronig ar gyfer y cartref wedi'i gynllunio'n wael ac yn anodd i'w ddefnyddio – gyda'r recordiwr fideo efallai fel yr enghraifft orau o hyn. Ond tra bo defnyddwyr iau yn dysgu defnyddio'r offer er gwaetha'r ffaith ei fod wedi'i gynllunio'n wael, mae pobl oedrannus yn fwy tebygol o gael eu trechu ganddynt. Yn benodol, maent yn aml yn cael problemau yn trin rheolyddion bach ac yn darllen teip bach. O ran rheolyddion o bell EPG, disgwylir iddynt wneud y naill beth a'r llall, ac mae hyn yn cymhlethu'r broblem o ddysgu i gael y gorau o'u teledu digidol. Yn wir, o ran un wraig oedrannus yr aethom i ymweld â hi, roedd mewn gwirionedd wedi'i rhwystro rhag dechrau o gwbl. Yn y cyfnod cyntaf, roedd hi'n dal yn gwylio teledu analog yn ei hystafell fyw, tra oedd y blwch pen-teledu yn ei hystafell wely wedi rhewi, ac roedd angen ffonio'r ddesg gymorth am gyngor ar sut i'w ailosod. Roedd ei golwg yn wael ac roedd yn ei chael yn anodd darllen y geiriau ar fotymau amrywiol y rheolydd, fel 'list' 'guide' 'menu' 'i' 'OK' 'text' 'opt' 'back' 'exit'. Ac wrth gwrs, mae'r broblem ychwanegol sy'n ymwneud â deall yr hyn y mae pob un ohonynt yn ei wneud a beth yw'r gwahaniaeth rhyngddynt – er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng 'list' 'guide' a 'menu'. Ac mae hyn yn tybio eich bod wedi dod o hyd i'r botymau amrywiol ar y rheolydd o bell yn y lle cyntaf. Yn gyffredinol, mae pobl yn cofio rhai o'r botymau ar eu set llaw yn unig, ac yna, mae'n ymddangos eu bod yn cau'r rhai eraill allan yn feddyliol.

16 Meysydd Problem

#

(iv) Setiau llaw lluosog

Heb iDTV, rhaid i bawb ddefnyddio o leiaf ddau reolydd o bell i weithredu eu system – un i ddechrau'r teledu a'r llall i weithredu'r canllaw rhaglen electronig (EPG) a dewis gwasanaethau rhyngweithiol. Weithiau, gall y naill a'r llall reoli'r sain.

Mae nifer o ddeiliaid cartref wedi arfer diffodd eu teledu wrth y wal, sydd wedyn yn golygu bod angen ail-osod y set gyda rheolydd y teledu i'r sianel briodol y mae'r teledu digidol yn gweithio trwyddi. Achosodd hyn rhywfaint o ddryswch a phroblemau gyda gweithredu'r gwasanaethau digidol.

(v) Arddangosiadau

Roedd yn well gan rai ymatebwyr (yn ddieithriad yn ddynion) ddatrys sut i weithredu'r system eu hunain, ond ymhlith y bobl oedrannus, mae'n debygol mai nifer fach iawn fydd y rhain. Roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r deiliaid cartref y gwnaethom ymweld â hwy yn ei chael yn haws yn yr achos cyntaf i rywun ddangos iddynt sut i weithredu'r system. O'u safbwynt nhw, roedd hyn wir angen cynnwys rhywfaint o brofiad uniongyrchol. Roeddent wedyn yn aml wedi cofnodi neu

wedi gofyn am gofnodi'r cyfarwyddiadau sylfaenol hyn. Mae yna ddau reswm penodol pam mae arddangosiadau mor bwysig ar gyfer y gweithrediadau sylfaenol ac ar gyfer y gweithrediadau mwy soffistigedig. Y cyntaf yw bod gan y rhan fwyaf o bobl oedrannus brofiad cyfyngedig iawn o normau technolegol. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn deall ynghylch dewislenni, 'toglau' na'r ffaith y gallai fod yna fwy nag un ffordd o gael yr un canlyniad, fel newid sianel. Yn ail, nid ydynt yn gyffredinol yn gwybod pa ddimensiynau ychwanegol y mae gwasanaeth digidol yn ei roi i'w hystafell fyw. Fe wnaethom gyfweld â deiliaid cartref, er enghraifft, nad oedd yn gwybod y gallent wrando ar radio digidol trwy eu setiau teledu. Roedd yn rhaid i ni hefyd ddangos i'r rhan fwyaf ohonynt y wybodaeth ddigidol a oedd ar gael iddynt, gan gynnwys canllawiau rhaglenni, gwybodaeth am raglenni, calendrau, teledestun, cyfleusterau cymorth, gemau rhyngweithiol ac wrth gwrs y 'botwm coch' enwog a'r gwasanaethau rhyngweithiol.

(vi) Llyfrynnau cyfarwyddyd

Yr elfen 'gadael ar ôl' allweddol oedd llyfryn cyfarwyddyd y blwch pen-teledu, er ein bod yn gwybod i lenyddiaeth a chanllawiau eraill gael eu darparu. Er bod y llyfrynnau yn cynnwys llawer o wybodaeth, cafodd nifer o ddeiliaid cartref broblemau â nhw am ddau reswm allweddol. Y cyntaf yw bod y llyfrynnau yn gynhwysfawr, a oedd yn eu gwneud yn hynod anodd. Roeddent yn cynnwys y pethau sylfaenol hanfodol ac yna'r dewisiadau mwy soffistigedig. Yr ail broblem i lawer o bobl oedrannus oedd bod y llyfrynnau yn cynnwys teip bach, a oedd yn anodd i'w ddarllen.

(vii) Setiau llaw

Nid yw'r setiau llaw sy'n safonol gyda'r blychau pen-teledu a gyflwynwyd yn Llansteffan a Glanyfferi yn hawdd iawn i'w defnyddio. Mae yna nifer ddryslyd o fotymau arnynt ac mae'r llythrennau'n fach iawn. Mae hyn yn gwneud defnyddio'r set llaw yn anodd iawn i bobl oedrannus, yn enwedig os yw eu golwg yn wael. Fan lleiaf, byddai'n fuddiol i wneuthurwyr ddarparu diagram ar raddfa fawr o'r set llaw, ond y delfryd fyddai setiau llaw wedi'u cynllunio'n fwy ergonomig ac, yn benodol, set llaw â theip mawr (cf ffonau â theip mawr) ar gyfer pobl oedrannus a'r bobl sydd â nam ar eu golwg. Byddai hefyd yn hynod fuddiol cael botwm 'home' a fyddai'n mynd â'r defnyddiwr yn ôl i'r sgrin agoriadol. Roedd un defnyddiwr oedrannus oedd â blwch pen-teledu a oedd wedi'i osod yn ddiweddar mewn ymarfer ymchwil arall wedi troi ei theledu ymlaen ar ôl i'w hŵyr fod yn ymweld, a gwelodd ei fod wedi'i osod ar gyfer gemau rhyngweithiol, ac ni allai ddod o hyd i ffordd o ailosod y teledu i'w fodd arferol. Roedd angen galwad ffôn ac esboniad cam wrth gam amyneddgar gan ei hŵyr saith mlwydd oed iddi gael y sianel deledu yr oedd am ei gwylio yn ôl.

Erbyn yr ail gyfnod, roedd pobl wedi dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r sianelau digidol, ond roedd gosodiad a dyluniad gwael y setiau llaw yn golygu eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr i ddefnyddio'r ychydig iawn o reolyddion yr oeddent yn gwybod sut i'w defnyddio. Dros gyfnod, os rhywbeth, roeddent wedi dod yn llai ymwybodol o'r botymau neu'r rheolyddion eraill ar y set llaw. Roedd yn ymddangos eu bod wedi synnu pan ddangoson ni iddynt rai o'r botymau ar eu setiau llaw, gan wneud argraff arnynt, fel petai, am y tro cyntaf. Â bod yn deg, mae'n siŵr nad yw hyn yn wahanol i'w hymagwedd at reolydd o bell eu teledu neu eu Recordiwr Fideo Personol. Ar ôl dysgu'r pethau sylfaenol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn anwybyddu'n feddyliol y botymau neu'r rheolyddion nad ydynt yn eu defnyddio. Maent yn agored i ddysgu ffyrdd newydd o wneud pethau neu fotymau newydd i'w pwyso, ond mae angen dangos iddynt sut i'w wneud. Ar ôl y diwrnodau neu'r wythnosau cyntaf, nid ydynt bellach ar y trywydd archwilio.

(viii) Diffyg Safoni

Rhan o'r broblem i'r ymatebwyr oedrannus oedd y diffyg safoni o ran terminoleg ac o ran yr offer a ddarperir. O roi un enghraifft, roedd gan un wraig oedrannus ddwy set deledu, ond roeddent yn defnyddio gwahanol sianelau ar gyfer y digidol:

"Rhaid i mi ddefnyddio '5' i gael teledu digidol yn fy ystafell fyw a '2' i gael y sianel ddigidol yn fy ystafell wely."

Benyw, Glanyfferi

Ac i unrhyw un sydd â gwahanol flychau pen-teledu, roeddent yn drysu rhwng y gwahanol enwau am wahanol fotymau, er enghraifft, mae 'information' ar un set llaw yn syml yr un fath â botwm 'i' ar set llaw arall, ac ati.

(ix) Dechrau/Modd 'Standby' / Diffodd

Adeg ein hymweliad cyntaf, fe wnaethom nodi problem gyda deiliaid cartref yn diffodd popeth wrth y plwg, gan gynnwys y blwch pen-teledu. Roedd hyn yn golygu pan oeddent yn dechrau'r teledu yn y bore, roeddent yn aros yn hir tra oedd y blwch pen-teledu yn llwytho. Er bod y rhan fwyaf o'r deiliaid cartref yn llwyddo i newid arfer oes, roedd yna rywfaint o broblem o hyd yn gysylltiedig â'r amser yr oedd yn ei gymryd i'r blwch pen-teledu lwytho o'r modd 'standby'. Mae pobl sydd wedi arfer â'u set deledu yn dechrau ar unwaith yn dechrau poeni os nad yw'r gwasanaeth digidol yn dechrau ar unwaith a gallent wedyn bwyso'r botwm 'standby' am yr eilwaith sydd wedyn yn troi'r blwch pen-teledu yn ôl i'r modd 'standby'. (Mae hyn yn rhan o'r broblem y soniwyd amdani uchod sy'n wynebu llawer o bobl hŷn sydd ag ychydig iawn o brofiad o 'doglau' ar ddyfeisiadau electronig.)

(x) Rhewi Delweddau Ysbeidiol

Yr unig gŵyn bron oedd gan bobl am y gwasanaeth digidol oedd bod y ddelwedd weithiau'n rhewi am rai eiliadau yn eithaf rheolaidd:

"Mae'n rhewi am gyfnodau byr, am 2-3 eiliad."

Gwryw, Glanyfferi

Nid oedd hyn fel arfer yn para'n hir, ac roedd y llun yn dychwelyd i fod yn llun arferol, ond weithiau, roedd angen cymryd camau mwy eithafol:

"Ddwywaith neithiwr, bu'n rhaid i mi ei ddadrewi trwy ei ddechrau a'i ddiffodd."

Benyw, Glanyfferi

Nid ydym yn glir a yw hyn yn rhywbeth sy'n ymwneud â chryfder y signal yn ardal yr arbrawf neu a yw'n broblem sy'n cael ei chydnabod yn ehangach gyda throsglwyddiad digidol am ddim.

17 Argymhellion

#

Ar hyn o bryd, byddem yn argymell y canlynol :

(xi) Sesiwn Hyfforddiant Personol

- Sesiwn gam wrth gam gan y gosodwr, ond gallai rhywun arall wneud hyn
- Rhaid i hyn gynnwys deiliad y cartref yn ymarfer y pethau sylfaenol yn uniongyrchol (dechrau, newid sianelau, diffodd)
- Rhaid dilyn rhestr wirio gan ystyried nodweddion allweddol (e.e. isdeitlau, sain, mud, radio, teledestun)
- 'Gadael ar ôl' - canllaw personol ar Sut i Ddechrau - y gallant ei ddefnyddio i'w hatgoffa
- Galwad ffôn ddilynol ddiwrnod neu ddau yn ddiweddarach
    - I wneud yn siwr bod popeth yn iawn
    - Cynnig ymweliad dilynol

- Ymweliad dilynol diweddarach pan fydd y pethau sylfaenol wedi'u meistroli i gyflwyno'r 'pethau ychwanegol' Gallai fod o dair wythnos i fis yn ddiweddarach

(xii) Cymhorthion Gweledol

- Canllaw darluniadol â theip mawr ar gyfer set llaw rheolydd o bell
- Set llaw rheolydd o bell mawr yn ddelfrydol (cf ffonau teip mawr)

(xiii) Addysg

- Angen am addysg ac ymwybyddiaeth ymhlith gwneuthurwyr o anghenion pobl oedrannus a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.
- Mae angen addysg i brynwyr hefyd – mae rhywfaint o hyn yn debygol o ddod gan y gwneuthurwyr, ond gallai hefyd ddod o ffynonellau eraill, fel awdurdodau lleol neu sefydliadau cymunedol neu o ganllawiau amserlenni teledu.

(xiv) Dyluniad Set llaw

- Mae dyluniad set llaw yn allweddol ar gyfer pob defnyddiwr, ond yn enwedig ar gyfer pobl oedrannus. Mae angen i fotymau fod yn fwy ac wedi'u gosod allan yn well, ac mae angen iddynt gael labeli mawr arnynt fel y gellir eu hadnabod yn hawdd.
- Byddai botwm 'Home' i fynd allan o'r is-ddewislenni a mynd â defnyddwyr yn ôl i'r sgrin agoriadol yn rhoi mwy o hyder i bobl oedrannus archwilio swyddogaethau trwy bwyso botymau heb ofni na fyddant yn gallu mynd yn ôl at sianelau teledu 'arferol'.